

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Ebrill 2023

1. Cyflwyniad

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

1. Ar 18 Ionawr 2023 ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w hysbysu ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) "er mwyn galluogi cyflwyno trefn gaffael bwrpasol fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd GIG Cymru." Dywedodd:

"Bydd y Bil ac is-ddeddfwriaeth bosibl yn ceisio galluogi sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu arferion caffael mwy hyblyg wrth gyrchu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Er mwyn galluogi is-ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl, bydd y Llywodraeth yn cynnig cyflymu'r amserlen ar gyfer y Bil a fydd yn ei alluogi i gyrraedd Cam 4 cyn toriad yr haf."¹

2. Cyflwynwyd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd dair wythnos a hanner yn ddiweddarach ar 13 Chwefror 2023 gyda Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") cysylltiedig. At hynny, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.²

¹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 18 Ionawr 2023

² Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth a gwybodaeth arall am y Bil a'i daith drwy'r Senedd ar gael ar [wefan y Senedd](#).



3. Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn Fil fframwaith. Nid yw'n cynnwys unrhyw gyfraith sylweddol; yn hytrach, mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau:

- 'Pŵer datgymhwyso' a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau Deddf Caffael 2023 ddisgwyliedig (sy'n dal i fod yn Fil ar ei daith drwy Senedd y DU ar hyn o bryd) a fyddai fel arall yn berthnasol i gaffael gwasanaethau iechyd.
- 'Pŵer creu' a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar wahân ar gyfer y gwasanaethau iechyd hyn yng Nghymru.

Ein gwaith craffu

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 24 Ionawr 2023 i gyfeirio'r Bil atom ni ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a'r dyddiad cau ar gyfer adrodd oedd 28 Ebrill 2023.³ Yn ystod y chwe wythnos eistedd oedd ar gael i ni, gwnaethom y canlynol:

- Cyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig.⁴ Gan fod yr amser a oedd ar gael yn gyfyng, roedd ein hymgyngoriad ar agor am ychydig llai na phedair wythnos.
- Cael sesiwn friffio dechnegol breifat gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Clywed tystiolaeth lafar gan gyrff iechyd.
- Cynnal trafodaeth anffurfiol breifat ag awdurdodau lleol, darparwyd y trydydd sector a'r sector preifat, cynrychiolwyd gofal sylfaenol ac undebau.⁵
- Ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am ragor o wybodaeth am ei diwygiadau arfaethedig i'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr.⁶

³ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#), Chwefror 2023

⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, [Ymgynghoriad: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#)

⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

⁶ [Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), 16 Chwefror 2023

- Clywed tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mwyn llywio'r sesiwn hon, gwnaethom hefyd adolygu'r dystiolaeth lafar yr oedd hi wedi'i rhoi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid, ac ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurder ar faterion penodol.
- Ysgrifennu at gyrff iechyd yng Nghymru i ofyn am ragor o wybodaeth.⁷

Ein barn ni

5. Mae'n destun gofid na lwyddodd Llywodraeth Cymru i roi mwy o rybudd i'r Senedd o'i bwriad i ddeddfu ar gaffael gwasanaethau iechyd, yn enwedig gan i ymgynghoriadau Llywodraeth y DU ar ddiwygiadau arfaethedig gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2022, bod Deddf Iechyd a Gofal 2022 (y mae'r diwygiadau yn deillio'n bennaf ohoni) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â rhai rhanddeiliaid yn anffurfiol yn ystod 2022. Roedd y diffyg rhybudd yn atal y posibilrwydd o gynnal gwaith craffu cyn deddfu, ac yn tarfu ar ein rhaglen waith arfaethedig.

6. At hynny, mae'n destun gofid bod yr amserlenni a gyflymwyd ar gyfer gwneud cynnal gwaith craffu ar Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd wedi cyfyngu, o reidrwydd, ar ein dull o gynnal gwaith craffu ar y materion technegol a chymhleth hyn, ac wedi rhoi pwysau arnom ni a rhanddeiliaid yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

7. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi gallu cyfrannu at ein gwaith.

2. Cyd-destun polisi a deddfwriaethol

Y cefndir

8. Prif sbardun Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yw cynigion Llywodraeth y DU i newid y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn y DU yn caffael nwyddau a gwasanaethau,⁸ yn enwedig newidiadau arfaethedig yn y gyfundrefn gaffael ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Lloegr.

⁷ Llythyr at gyrff iechyd, 4 Ebrill 2023

⁸ Llywodraeth y DU, [Papwr polisi: Y Bil Caffael - canllaw cryno i'r darpariaethau](#), 16 Mehefin 2022 (Saesneg yn unig)

Y 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn'

9. Darperir y prif fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu'r broses o gaffael gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr hyn a elwir yn 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn', sy'n cynnwys rhai gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg (fel y'u diffinnir gan godau Geirfa Caffael Gyffredin) yng Nghymru a Lloegr, nad ydynt yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn eu cyfanrwydd. Mae hyn wedi'i gynllunio i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau contractio i addasu cyfundrefn gaffael i ddiwallu eu hanghenion unigol, tra hefyd yn cynnal tryloywder a thriniaeth gyfartal.

Bil Caffael Llywodraeth y DU

10. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno cyfundrefn gaffael newydd i ddisodli Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 drwy ei Bil Caffael.⁹ Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bil Caffael yn tynnu at ddiwedd ei daith drwy Senedd y DU.

11. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am gynnwys awdurdodau contractio o Gymru o fewn cwmpas y Bil Caffael, a gosododd gyfres o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd.¹⁰ Mae Memorandwm Esboniadol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn nodi fel a ganlyn:

"Nid yw'r Bil Caffael yn cadw'r 'gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn' yn ei ffurf bresennol a bydd yn ceisio cyflwyno'r cysyniad o 'gontract cyffyrddiad ysgafn' (fel y'i diffinnir mewn rheoliadau) sy'n elwa ar eithriadau i dendro cystadleuol llawn o dan brif ddarpariaethau'r Bil. Bydd y Bil hefyd yn caniatáu dyfarnu'n uniongyrchol gontractau cyhoeddus ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ddewis defnyddwyr yn unol â

⁹ Y Bil Caffael [Tŷ'r Arglwyddi] [fel ar Ebrill 2023] (Saesneg yn unig)

¹⁰ Mae gwybodaeth am Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caffael ar gael ar y [wefan y Senedd](#). Pleidleisiodd y Senedd ar **28 Mawrth 2023** ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r darpariaethau i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cytunwyd ar gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y rhan fwyaf o'r darpariaethau, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â chyflenwyr gwladwriaeth y Cytuniad ("Treaty state suppliers"), Anghydfodau Masnach ("Trade Disputes") a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen 9. Penderfynodd Llywodraeth yr Alban beidio ag ymuno â'r Bil Caffael, gan gadw yn lle hynny ei rheoliadau caffael ei hun mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig yr Alban.

gwasanaethau sydd wedi'u dynodi o dan y gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn".¹¹

Deddf Iechyd a Gofal 2022 a'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr

12. Yn ogystal â'r diwygiadau ehangach yn y Bil Caffael, mae Llywodraeth y DU yn cynnig newid y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd¹² yn cael eu caffael yn Lloegr. Mae adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 i ddarparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i roi rheolau newydd ar waith, sy'n ymwneud â chaffael gwasanaethau gofal iechyd gan awdurdodau perthnasol diffiniedig.¹³ Mae adran 79, felly, yn darparu'r 'pŵer creu' cyfatebol mewn perthynas â Lloegr y mae adran 3 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn ceisio ei gyflwyno i Gymru.

13. Cafodd Deddf Iechyd a Gofal 2022 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022 ond nid yw Adran 79 wedi dod i rym eto. Fodd bynnag, mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar gynigion i ddefnyddio'r pŵer i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, sef y Gyfundrefn Dethol Darparwyr.¹⁴ Nod y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yw symud oddi wrth yr amgylchedd tendro cystadleuol blaenorol tuag at system o fwy o gydweithio a phartneriaeth, er y bydd tendro cystadleuol yn parhau i fod yn opsiwn caffael pe bai awdurdodau perthnasol yn dewis ei ddefnyddio.

14. Gan fod Llywodraeth y DU yn bwriadu i wasanaethau gofal iechyd yn Lloegr fod yn ddarostyngedig i'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn hytrach na'r Bil Caffael, mae'r Bil Caffael yn cynnwys 'pŵer datgymhwysu' sy'n galluogi Gweinidog y Goron i ddatgymhwysu unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Caffael pan fo darpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn berthnasol.¹⁵ Bydd hyn yn galluogi'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr i weithredu yn lle'r Bil Caffael ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr.

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#), Chwefror 2023, paragraff 14

¹² Diffinnir yn Rhan 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

¹³ Diffinnir fel a ganlyn: awdurdod cyfun; bwrdd gofal integredig; awdurdod lleol yn Lloegr; GIG Lloegr; ymddiriedolaeth sefydledig y GIG; ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.

¹⁴ Llywodraeth y DU, [Ymgynghoriad: Rhagolwg o'r cynigion ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr](#), Chwefror 2022 (Saesneg yn unig) a Llywodraeth y DU, [Ymgynghoriad: Cyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad atodol ar fanylion cynigion ar gyfer rheoliadau](#), Chwefror 2022 (Saesneg yn unig)

¹⁵ Cymal 119 o'r Bil Caffael fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, 24 Chwefror 2023. Cafodd y cymal hwn ei gynnwys yn y Bil adeg ei gyflwyno. Fe'i dilëwyd drwy welliant na ddaeth

15. Mewn llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2023, dywedodd yr Arglwydd Markham, y Gweinidog arweiniol ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr:

“At this time, UK Government in partnership with NHS England is preparing its final draft of the regulations which will set out the detail of the PSR. We plan to lay the regulations for the PSR in UK Parliament once we have a final draft ready to lay.

*The date at which the regulations are laid will also inform our final planned target date to commence the PSR in England. The regulations will be subject to the affirmative parliamentary process before they can come into force”.*¹⁶

Y cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru

16. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud yn gyson bod diwygiadau'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn sbardun allweddol i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, ar y sail a ganlyn:

*“Bydd y darpariaethau yn y Bil a'r rheoliadau yn y dyfodol yn hwyluso'r hyblygrwydd hwnnw, gan ddarparu mecanwaith cefnogol sy'n ceisio cynnal y tegwch, o ran caffael presennol, yng ngwasanaethau iechyd y GIG rhwng Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o effaith anffafriol ar GIG Cymru oherwydd gweithredu trefn gaffael wahanol gan y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Bydd yn cadw'r gallu i'r GIG yng Nghymru gomisiynu darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol ar sail cyd-gydymffurfio a chydweithredu, ac yn ei dro yn cefnogi ac optimeiddio adnoddau ariannol a staff, gan gefnogi'r GIG yng Nghymru i ddarparu'n effeithlon ac effeithiol”.*¹⁷

17. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol cyntaf ar gyfer y Bil Caffael yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn y lle cyntaf i'r pwerau ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd gael eu cynnwys yn y Bil Caffael, ond ei bod wedyn wedi penderfynu dilyn opsiynau eraill yn lle hynny.¹⁸ Mewn llythyr at y

gan y Llywodraeth yn ystod ei gamau yn Nhŷ'r Arglwyddi, ond cafodd ei adfer yn ystod y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

¹⁶ Llythyr oddi wrth yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, 22 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

¹⁷ Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn [paragraff 236], 14 Chwefror 2023

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Caffael, Gorffennaf 2022

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, esboniodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

*"Dim ond o fewn y Bil Caffael yr ymrwymodd Llywodraeth y DU i'r pŵer anghymwysu. Bu i weinidogion gydnabod bod angen defnyddio'r ddau bŵer er mwyn newid ac felly roedd angen deddfu yng Nghymru o hyd. O ystyried yr angen hwn i ddeddfu, penderfynodd Gweinidogion Cymru y byddai cyflwyno Bil a oedd yn cynnwys y pwerau anghymhwysu a chreu gyda'i gilydd yn darparu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ac yn rhoi mwy o gydlyniant a hygyrchedd i'r ddeddfwriaeth."*¹⁹

18. Cafodd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil hwnnw yn nodi ei fod yn:

"...darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol".²⁰

19. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Gymdeithasol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 6 Mawrth 2023 fod y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn nodi ffordd o weithio, tra bod Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau eithaf technegol o ran caffael. Dywedodd fod hyn yn golygu'r canlynol o ran y darpariaethau ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd:

"...it didn't sit comfortably with other Bills, and that's why we've taken this route. We did explore [including the provisions in the SPPP Bill] as an option and found that it wouldn't have worked".²¹

¹⁹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Chwefror 2023

²⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Mehefin 2022

²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Cofnod y Trafodion [paragraffau 43 a 45], 6 Mawrth 2023

20. Cawsom eglurhad pellach gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Mawrth 2023:

"I think the key thing to remember in relation to the social partnership and public procurement Bill— So, what happened there is that they'd already started on that route before we started on this route. So, we were in a position where, by the time we realised that we'd have to act in this space, there was no scope for us to get involved in that particular Bill. So, the scope was quite limited. Had we got there earlier [...] we might have been able to put something into the social partnership Bill. But by the time we got there, our legal advice told us that we were out of scope, and so we couldn't be involved in that particular Bill".²²

Amserlenni

21. Crynhodd Dr Mary Guy, sy'n Uwch Ddarlithydd mewn Cyfraith Gyhoeddus a'r UE ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl, yr heriau sy'n gysylltiedig â maint y newid deddfwriaethol sydd ar y gweill mewn perthynas â chaffael yn y gwasanaethau iechyd:







"In view of the ongoing anticipation of changes both to the Procurement Bill in the UK, and while awaiting clarification of the new procurement regime for the English NHS, the Welsh government may find itself in a particularly challenging area of uncertainty. On the one hand, proposing legislation while not having the full picture relating to NHS procurement in England is particularly challenging as regards how this may be drafted with sufficient flexibility. On the other hand, it is prudent to recognise the potential for negative effects on procurement in the Welsh NHS and to take steps accordingly."²³

22. Mae tabl **Tabl 1** yn crynhoi'r amserlenni ar gyfer datblygu cynigion deddfwriaethol, ac yn nodi pa gynigion sy'n effeithio ar Gymru yn unig, sy'n effeithio ar Loegr yn unig, ac sy'n effeithio ar Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. At hynny, mae'n nodi ym mha ddarnau o ddeddfwriaeth y gellir dod o hyd i'r

²² Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 30 Mawrth 2023











²³ HSP8 Dr Mary Guy, Uwch Ddarlithydd mewn Cyfraith Gyhoeddus a'r UE ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl (Saesneg yn unig)

pwerau 'creu' a 'datgymhwyso' cyfatebol mewn perthynas â Chymru a Lloegr. Yn y tabl:














-  = darpariaeth pŵer creu, neu'r defnydd ohono
-  = darpariaeth pŵer datgymhwyso, neu'r defnydd ohono
-  = yn gymwys yn Lloegr
-  = yn gymwys yng Nghymru
-  = yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon
-  = Cydsyniad Brenhinol

Tabl 1 Crynodeb o amserlenni deddfwriaethol



2022

Lloegr yn unig	Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	Cymru yn unig
 <p>Chwefror 2022: (gan ragweld y bydd y Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 yn cael Cydsyniad Brenhinol) Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer a Lloegr yn unig (cyfundrefn gaffael y gwasanaeth gofal iechyd, i'w hadnabod fel y Gyfundrefn Dethol Darparwyr).</p>	     <p>Mai 2022: Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil Caffael i sefydlu cyfundrefn gaffael newydd i'r sector yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (yn ddarostyngedig i gydsyniad y Senedd). Mae'r Bil yn cynnwys pŵer datgymhwyso ar gyfer Lloegr yn unig, i Weinidogion y DU esemptio gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr o gyfundrefn gaffael newydd y sector cyhoeddus.</p>	 <p>Gorffennaf 2022: Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ystyried sut i ymateb i ddatblygiadau yn Lloegr, ac y gallai opsiynau mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yng Nghymru gynnwys Bil Cymru yn unig.</p>
   <p>Ebrill 2022: Deddf Iechyd a Gofal 2022 yn cael Cydsyniad Brenhinol, gan roi pwerau i Weinidogion y DU greu cyfundrefn gaffael y gwasanaeth gofal iechyd ar gyfer Lloegr yn unig (unwaith y bydd y darpariaethau perthnasol wedi eu rhoi ar waith).</p>		

2023

Lloegr yn unig	Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	Cymru yn unig
  <p>Haf 2023 (l'w gadarnhau): Disgwylir i Lywodraeth y DU ddefnyddio'r pŵer creu ar gyfer Lloegr yn unig:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu cyfundrefn gaffael y gwasanaeth gofal iechyd ar gyfer Lloegr yn unig. - Cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer Lloegr yn unig. <p>Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y DU.</p>	    <p>Gwanwyn 2023 (l'w gadarnhau): Disgwylir i'r Bil Caffael gael Cydsyniad Brenhinol ond ni ddisgwylir iddo fod mewn grym yn llawn wrth y cam hwn.</p>	 <p>Ionawr 2023: Llywodraeth Cymru yn dweud wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd yn cyflwyno Bil ar gyfer Cymru yn unig.</p>    <p>Chwefror 2023: Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Mae'r Bil yn cynnwys pwerau datgymhwyso a chreu ar gyfer Cymru'n unig, i Weinidogion Cymru, sy'n cyfateb yn fras i'r pwerau ar gyfer Lloegr yn unig yn y Bil Caffael a Deddf Iechyd a Gofal 2022.</p>   <p>Haf 2023 (l'w gadarnhau): Disgwylir i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) gael Cydsyniad Brenhinol.</p>  <p>Hydref 2023 (l'w gadarnhau): Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori am 12 wythnos yn ystod datblygiad y rheoliadau a'r canllawiau statudol ar gyfer Cymru yn unig.</p>

2024

Lloegr yn unig	Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	Cymru yn unig
	 <p>Gwanwyn 2024 (l'w gadarnhau): Disgwylir i gyfundrefn gaffael newydd y sector cyhoeddus ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o dan y Bil Caffael, ddod i rym. Disgwylir i wasanaethau gofal iechyd yn Lloegr gael eu heithrio trwy ddefnyddio'r pŵer datgymhwyso ar gyfer Lloegr yn unig.</p>	 <p>Gwanwyn 2024 (l'w gadarnhau): Disgwylir i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau datgymhwyso a chreu ar gyfer Cymru yn uing i:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar gyfer Cymru yn unig. - Cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer Cymru yn unig. <p>Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.</p>

Y rhesymeg dros y Bil

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

23. Ar 30 Mawrth 2023, esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod ei gweledigaeth ar gyfer iechyd yng Nghymru wedi'i nodi yn 'Cymru Iachach',²⁴ ac y dylai trefniadau caffael y gwasanaeth iechyd gyfrannu at hynny. Cafwyd yr esboniad a ganlyn wrthi:

"What we have been advocating for a while is, perhaps, more collaborative working, making sure we've got high-quality services that are delivered efficiently, that are focused on patient outcomes, but making sure we also have the right checks and balances, which ensures that we spend the little money that we have efficiently on services."²⁵

24. Yn ôl y Gweinidog, mae rhanddeiliaid yn pryderu am oblygiadau gwahaniaethu rheoliadol yn dilyn rhoi unrhyw agwedd ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ar waith.²⁶ Dywedodd fod angen y Bil er mwyn rhoi'r dewis i Lywodraeth Cymru benderfynu, unwaith y bydd manylion y Gyfundrefn Dethol Darparwyr wedi'u cadarnhau, a yw am gyflwyno trefniadau tebyg ar gyfer Cymru ai peidio.²⁷ Dywedodd y gallai cysondeb rheoliadol fod o fudd i GIG Cymru drwy osgoi tarfu posibl yn ei allu i gaffael gwasanaethau gan ddarparwyr yn Lloegr, a manteision i ddarparwyr o Gymru y byddent, o bosibl, eisiau darparu gwasanaethau yn Lloegr.²⁸

25. Ychwanegodd Dafydd Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwyddorau Bywyd ac Arloesi Llywodraeth Cymru, a'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer y Bil, fod arbenigwyr caffael GIG Cymru wedi cyfleu neges eglur am y risg real iawn y gallai gwahaniaethu rheoliadol olygu nad yw darparwyr eisiau darparu gwasanaethau yng Nghymru. Dywedodd y gallai hyn gynnwys gwasanaethau arbenigol gan gynnwys iechyd meddwl a gwasanaethau arenol.²⁹

²⁴ Llywodraeth Cymru, [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#), diweddarwyd Tachwedd 2022

²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 30 Mawrth 2023

²⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 28], 30 Mawrth 2023

²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 12 a 25], 30 Mawrth 2023

²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 30 Mawrth 2023

²⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 30 Mawrth 2023

Barn cyrff iechyd

26. Gwnaethom ofyn i gyrff iechyd am risgiau posibl yn sgil gwahaniaethu rheoliadol. Dywedodd Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr Caffael a Gwasanaethau Negesydd Iechyd ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, y gallai'r Bil helpu i sicrhau nad yw pobl a gwasanaethau yng Nghymru o dan anfantais oherwydd y diwygiadau yn Lloegr. Esboniodd pe na bai Llywodraeth Cymru yn deddfu, byddai gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn ddarostyngedig i gyfundrefn gaffael newydd y sector cyhoeddus o dan y Bil Caffael pan ddaw i rym yn 2024. O ganlyniad, byddai angen i gyrff iechyd yng Nghymru ddilyn dull tendro cystadleuol, tra byddai gan eu cymheiriaid yn Lloegr fwy o hyblygrwydd o dan y Gyfundrefn Dethol Darparwyr i barhau â chontractau, dyfarnu contractau'n uniongyrchol, neu dendro cystadleuol. Ychwanegodd y gallai cyfundrefn lai beichus yn Lloegr ei gwneud hi'n gymharol llai deniadol i ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru, gan arwain at naill ai at ddarparwyr yn gadael yn eu niferoedd neu'n raddol adael y farchnad yng Nghymru.³⁰ Cafwyd y crynodeb a ganlyn ganddo:

“So, it is very much a real risk. [...] the market is becoming more consolidated, therefore we have fewer providers in the market, and that means that the capacity for those providers to provide services into Wales is challenged as it is. So, that is a risk. We also potentially have a risk in terms of current providers who maybe feel, then, they might want to give notice on services that they're currently providing into Wales to move into England.”³¹

27. Cytunodd Huw Thomas, Cyfarwyddwr Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, fod gwahaniaeth rheoliadol yn peri risg, boed y gwahaniaeth hwnnw'n deillio o'r Bil Caffael, cyrff iechyd yng Nghymru, neu wrth i Lywodraeth Cymru ddeddfu i gyflwyno cyfundrefn Cymru'n unig a oedd (neu y canfyddwyd ei bod) yn sylweddol wahanol i'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr:

“...I would urge against diverging in terms of the regulations that we put in place in Wales from what England will develop, because any perceived complexity or difference in doing business in Wales could

³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 6, 56 a 141], 9 Mawrth 2023

³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 9 Mawrth 2023

make it a lot more challenging for us to be able to secure cross-border activity.”³²

28. Roedd risgiau a nodwyd gan Huw Thomas yn cynnwys newidiadau mewn patrymau darpariaeth traddodiadol, os bydd sefydlu Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 yn arwain at dendro am wasanaethau mwy cymhleth ar draws ardaloedd daearyddol mwy o faint, neu ddiogelu capasiti darparwyr lleol ar gyfer anghenion lleol neu isranbarthol.³³

29. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Mawrth 2023, gwnaethom ysgrifennu at gyrff iechyd i ofyn am unrhyw enghreifftiau penodol o gontractau neu wasanaethau, ar gyfer gwasanaethau iechyd y maent yn eu caffael, a'u bod yn pryderu y gallent gael eu colli, neu eu heffeithio fel arall, pe bai'r cynigion ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn cael eu rhoi ar waith yn Lloegr, heb gyflwyno cyfundrefn gyfatebol yng Nghymru. Gwnaethom nodi y byddem yn trin unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif yn gyfrinachol. Rydym yn ddiolchgar i'r gyrff iechyd hynny a oedd yn gallu ymateb o fewn yr amserlenni tynn a oedd ar gael.

Goblygiadau posibl yn sgil gwahaniaethau rheoliadol: barn gyrff iechyd³⁴

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

- Ar hyn o bryd, mae gyrff GIG Cymru yn defnyddio rhai gwasanaethau arbenigol drwy fframweithiau caffael Lloegr. Yn ôl Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, nid oedd yn glir a fyddai GIG Cymru o'r fath yn dal i allu cael mynediad at y cyfryw fframweithiau pe bai gwahaniaethau rheoliadol. Ychwanegodd na fu unrhyw arwydd hyd yma bod darparwyr fframwaith Lloegr yn dueddol o roi'r gorau i ddarpariaeth i GIG Cymru drwy'r fframweithiau, ond dywedodd ei fod yn ymwybodol nad oedd nifer o fframweithiau Lloegr yn cael eu hadnewyddu.
- Byddai costau cysylltiedig ynghlwm wrth ddatblygu fframweithiau cyfatebol yng Nghymru (boed oherwydd colli mynediad neu beidio ag adnewyddu fframweithiau), a gallai darparwyr sydd eisoes mewn fframweithiau yn Lloegr neu sydd â pherthynas â GIG Lloegr fod yn amharod i gymryd rhan mewn

³² Cofnod y Trafodion [paragraff 21], 9 Mawrth 2023

³³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 8 a 57], 9 Mawrth 2023

³⁴ Llythyr oddi wrth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, 17 Ebrill 2023; Llythyr oddi wrth Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, 17 Ebrill 2023; Llythyr oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Llythyr oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Llythyr oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig)

prosesau caffael i gael mynediad at fframweithiau Cymru. Roedd y gwasanaethau y gellid effeithio arnynt yn cynnwys therapi pelydr proton; sganiau PET; gwasanaethau aciwt; gwasanaethau gofal eilaidd brys (gofal cymhleth/arbenigol); a gwasanaethau/llawdriniaethau lluosog i gleifion. Mae'n bosibl bod hwn yn ystod sylweddol o wasanaethau clinigol ac mae'n amlygu ymhellach yr angen absoliwt am eglurder ynghylch cwmpas y gwasanaethau sydd i'w cynnwys mewn unrhyw gyfundrefn gaffael newydd.

- Nododd Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru y gallai'r berthynas newidiol rhwng cyrff GIG Lloegr a sefydliadau'r trydydd sector, neu'r sector preifat, olygu bod darparwyr yn blaenoriaethu GIG Lloegr yn hytrach na GIG Cymru, gyda goblygiadau i wasanaethau gan gynnwys gallu sicrhau gwelyau at ddibenion iechyd meddwl ac anabledau dysgu.
- At hynny, roedd pryderon ynghylch byrddau iechyd sy'n ymwneud â threfniadau trawsffiniol.

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

- Yn ôl Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, mae'r amgylchedd caffael wedi dod yn anoddach yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i bwysau cynyddol ar brisiau, a phroblemau cyflenwi mewn rhai ardaloedd lle'r oedd dibyniaeth ar nifer fach o ddarparwyr. Roedd hyn wedi cynyddu'r gystadleuaeth rhwng GIG Cymru a GIG Lloegr lle'r oedd cyflenwad cyfyngedig o nwyddau neu wasanaethau.
- Ymhlith yr enghreifftiau penodol lle gallai gwahaniaethau rheoliadol sylweddol gyflwyno risgiau caffael roedd fframwaith yr Uned Comisiynu Gydweithredol Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, dialysis a maeth drwy'r gwythiennau yn y cartref ar gyfer methiant coluddol.
- Dywedodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ei fod yn amlwg yn ffafrio dull gofalus lle mae Cymru'n parhau i fod yn gyson â'r system newydd yn GIG Lloegr i ddechrau, gan ychwanegu y byddai'r dull hwn yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu dull Cymreig mwy lleol yn y tymor hwy.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Yn ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, nid oedd y newidiadau deddfwriaethol posibl yn Lloegr yn cyflwyno lefel uchel o risg, ond nododd y byddai'r asesiad hwn yn cael ei adolygu'n barhaus.

- Disgrifiodd cynnal cydraddoldeb rheoliadol â Lloegr fel un sy'n ffafriol ar y cyfan i fyrddau iechyd, gan awgrymu y byddai'n caniatáu iddynt gael mynediad at fecanwaith caffael symlach, galluogi'r defnydd parhaus o fframweithiau GIG Lloegr, ac osgoi colli cyfran o'r farchnad os byddai'r gyfundrefn gaffael yn Lloegr yn llai llym, neu pe caed yr argraff ei bod yn llai llym. Pwysleisiodd yr angen i unrhyw gyfundrefn newydd gynnwys diwydrwydd dyladwy a llywodraethu clinigol lleol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi cynnal sefyllfa gydradd ar draws Cymru a Lloegr, ond ychwanegodd nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth gan ddarparwyr presennol y byddai cyfundrefn gaffael wahanol yn annog darparwyr i beidio â gwneud cais am gontractau Cymreig.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg y gallai gwahaniaethau rheoliadol arwain at fiwrocratiaeth a chost ychwanegol i ddarparwyr a chyrrff iechyd, er ei bod yn anodd amcangyfrif maint posibl y risg.
- Rhoddodd enghraifft o ddarparwr ledled y DU a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl am gyfnod o 12 mis, gan nodi pe bai'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn cael ei roi ar waith yn Lloegr, a dim camau deddfwriaethol yn cael eu cymryd yng Nghymru, yna ar ddiwedd y cyfnod byddai'r corff yn Lloegr yn gallu parhau â'r contract pe bai'n gweithio'n dda, ond o dan y Bil Caffael, byddai angen i gorff iechyd yng Nghymru ddilyn proses dendro ffurfiol.

Barn rhanddeiliaid

30. Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol, ar y cyfan o'r hyn y mae'r Bil yn anelu at ei gyflawni o ran mwy o hyblygrwydd lleol i awdurdodau perthnasol,³⁵ a sefydlogrwydd a chysondeb eang rhwng cyfundrefnau caffael Cymru a Lloegr. Roeddent yn deall y ddibyniaeth rhwng y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr ac unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru, ac nad oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu gwneud penderfyniadau am unrhyw

³⁵ Wedi'i ddiffinio ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd fel cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru; bwrdd iechyd lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf GIG Cymru 2006; ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf GIG Cymru 2006; neu awdurdod iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf GIG Cymru 2006.

drefniadau caffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru hyd nes bod eglurder ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr. Fodd bynnag, cawsom wybod ganddynt y byddent yn croesawu sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru'n nodi ac yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd posib i Gymru a mwy o wybodaeth am weledigaeth y Gweinidog ei hun am sut yr hoffai hi weld caffael y gwasanaeth iechyd yn gweithredu yng Nghymru.³⁶

31. Clywsom safbwyntiau gwahanol ar y dull deddfwriaethol a sut y gellid defnyddio'r pwerau. Roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o blaid mwy o hyblygrwydd o ran caffael, ond dywedodd y byddai wedi bod yn well pe bai cydsyniad y Senedd wedi'i geisio i gynnwys Cymru yn y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ar sail y ffaith bod y ffin rhwng y ddwy wlad yn hawdd i'w chroesi, hyd a lled y cydweithredu trawsffiniol, a'r anawsterau a allai ddeillio yn sgil gwyriad rheoliadol ar gyfer GIG Cymru neu gyflenwyr.³⁷

32. Ar y llaw arall, roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gweld Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn gyfle i osgoi cloi Cymru mewn cyfundrefn nad oedd wedi'i chynllunio ar gyfer y dirwedd iechyd a gofal yng Nghymru. Nododd y gallai cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ganiatáu mwy o hyblygrwydd ac ystwythder, a chynyddu cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu a chydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Fodd bynnag, rhybuddiodd y gallai'r un hyblygrwydd gael ei ddefnyddio hefyd i ddilyn agenda o allanoli a phreifateiddio.³⁸ Roedd Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ddeddfwriaeth Cymru, ond yr un mor bryderus bod y Bil yn agor y posibilrwydd y gallai GIG Cymru ddilyn agenda contractio allanol a phreifateiddio GIG Lloegr.³⁹

33. Roedd y rhai a gymerodd ran yn ein digwyddiad trafod anffurfiol yn cytuno'n fras y gallai peidio â gweithredu arwain at ganlyniadau negyddol, gan gynnwys tarfu posibl ar wasanaethau (yn enwedig pan fydd gwasanaethau'n cael eu caffael neu eu darparu ar sail drawsffiniol). Roeddent yn awgrymu y gallai cyfundrefn newydd hefyd ddarparu cyfleoedd i hwyluso ac annog arloesi a chydweithio'n well rhwng awdurdodau a darparwyr perthnasol (a darparwyr posibl), a rhwng darparwyr.⁴⁰

³⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

³⁷ HSP12 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

³⁸ HSP4 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Saesneg yn unig)

³⁹ HSP11 Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru (Saesneg yn unig)

⁴⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

34. At hynny, clywsom dystiolaeth na all deddfwriaeth ddisodli arfer caffael da ymhlith awdurdodau neu ddarparwyr perthnasol.⁴¹ Er enghraifft, awgrymwyd y canlynol:

- Gall cyllid tymor byr ac oedi wrth wneud penderfyniadau ddeillio mwy o gynllunio cronfeydd trawsnewid, neu fethiant i symud cynlluniau peilot llwyddiannus i sylfaen gynaliadwy.
- Gall cyfathrebu gwael neu amrywiadau mewn cyfathrebu, neu fethiant i gydweithio fod yn ymwneud nid cymaint â phrosesau caffael, ac yn fwy am ddiffyg gallu ac adnoddau.

Ein barn ni

35. Mae cymhlethdod y cyd-destun polisi a deddfwriaethol, a'r rhyngberthynas a'r dibyniaethau rhwng gwahanol ddiwygiadau caffael wedi bod yn thema gyson yn ystod ein gwaith craffu. Mae natur fframwaith y Bil yn gwaethygu'r cymhlethdod hwn, yn yr un modd â bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei chynigion manwl ei hun dim ond ar ôl i'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr fod ar gael.

36. Nid ydym yn ystyried ei bod yn arfer deddfwriaethol da i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ddirprwyo pwerau eang ac arwyddocaol, heb eglurder ynghylch y dibenion y caiff y pwerau hynny eu rhoi iddynt. Er ein bod yn deall amgylchiadau penodol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, byddai wedi bod yn well pe bai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gallu rhoi mwy o wybodaeth am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud, a'r hyn sy'n well ganddi, o ran cwmpas a gweithrediad unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Er enghraifft, nid ydym wedi cael ein sicrhau eto na ellid o bosibl ddefnyddio unrhyw gyfundrefn newydd a sefydlir gan ddefnyddio'r pwerau ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd i hwyluso mwy o rôl i'r sector preifat o ran darparu gwasanaethau craidd y GIG yng Nghymru—yn hytrach nag ar gyfer y diben galluogi mynediad mwy hyblyg at wasanaethau arbenigol neu hwyluso cydgynhyrchu a chydweithio â'r trydydd sector—nag y byddai'r Pwyllgor am ei weld. Rydym yn trafod y materion o ran sut y gellir defnyddio'r pwerau ymhellach ym mhennod 3.

37. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i benderfyniadau ynghylch cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru gael eu gwneud yng Nghymru. I'r perwyl hwn, mae'n briodol y dylai fod gan Lywodraeth Cymru'r pwerau sydd eu hangen arni i sicrhau nad yw'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd yng

⁴¹ Gweler, er enghraifft, HSP3 Cyngor Sir Ceredigion; HSP7 Gofal a Thrwsio Cymru (Saesneg yn unig)

Nghymru yn cael ei pheryglu gan ddiwygiadau yn Lloegr. Ar y cyfan, felly, rydym yn rhannu'r farn y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Argymhelliad 1. Dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), ond dylai Aelodau o'r Senedd ystyried y materion a amgylchir yn ein hadroddiad drwy gydol eu gwaith craffu ar y Bil ac unrhyw reoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano.

3. Cynllunio cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru

Rhwystrau presennol a chyfleoedd posibl

38. Wrth gynnal ein gwaith craffu, rydym wedi clywed am y rhwystrau a'r heriau a gyflwynir gan y trefniadau caffael presennol, a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain wrth ddylunio unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd.⁴²

39. Roedd y canlynol ymhlith y rhwystrau a nodwyd:

- **Cymhlethdod y dirwedd gomisiynu** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gyda chlytwaith o drefniadau contractio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cynnwys amrywiaeth o gyrrff caffael a phylu'r ffiniau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Dim digon o feddwl strategol cydgysylltiedig a chydweithio** ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Penderfyniadau ariannu tymor byr, oedi o ran y cyfryw benderfyniadau, a gwaith cynllunio annigonol at ddibenion pontio.** Awgrymwyd y gallai methu â mynd i'r afael â hyn drwy'r Bil hwn, neu drwy ddulliau eraill, arwain at drosglwyddo contractau'n ôl gyda goblygiadau posibl i ansawdd a chysondeb y gwasanaethau a ddarperir, a goblygiadau ychwanegol o ran costau ac adnoddau i awdurdodau perthnasol. At hynny, gallai'r ansicrwydd effeithio ar iechyd meddwl a llesiant staff a defnyddwyr gwasanaeth.

⁴² Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023; HSP4 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; HSP6 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru; HSP7 Gofal a Thrwsio Cymru; HSP10 Platform (Saesneg yn unig); Cofnod y Trafodion [paragraffau 13, 58, 77 a 33], 9 Mawrth 2023

- **Rhwystrau rheoleiddio** yn cyfyngu ar allu awdurdodau perthnasol i fynd i drefniadau cytundebol tymor hwy.
- **Amrywiad ar draws byrddau iechyd** mewn dulliau a ffyrdd o weithio, gan gynnwys tryloywder, cyfathrebu, gwneud penderfyniadau amserol, ac ymatebion i effaith chwyddiant a chynnydd mewn costau byw.
- Anawsterau i sefydliadau llai neu fwy lleol o ran **meithrin perthnasau** ag awdurdodau perthnasol, ac o ran cael eu trin gan awdurdodau perthnasol fel **partneriaid cyfartal**.
- **Cyfleoedd a gollwyd ar gyfer cydgynhyrchu** gyda darparwyr a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Mwy o ffocws ar **agweddau di-wasanaeth ar gontractau yn cael eu cynnwys o fewn sgorau ansawdd gwasanaeth** yn ystod prosesau tendro.
- Canfuwyd bod rhywfaint o gontractau allanol a chomisiynu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain at waith mwy ansicr a chyflogau neu delerau ac amodau gwaeth, gydag effeithiau andwyol anghymesur i rai grwpiau a chymunedau a allai fod yn fwy tebygol o weithio yn y rolau hyn.

40. Roedd y cyfleoedd a nodwyd yn cynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- **Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth** o drefniadau caffael, a **mynd i'r afael â rhwystrau canfyddedig i fynediad** a all ddeillio o gamddealltwriaeth neu ansicrwydd.
- Sicrhau bod y gyfundrefn newydd yn cynnwys – ac yn hwyluso – **arloesi a chydweithio** rhwng awdurdodau perthnasol, darparwyr a darparwyr posibl i ddatblygu gwasanaethau newydd, a dod o hyd i ffyrdd newydd o wella canlyniadau i gleifion.
- Cynyddu gwerth am arian a gwella canlyniadau cleifion **drwy wella perthnasoedd rhwng awdurdodau perthnasol a darparwyr a meithrin mwy o gydweithredu** er mwyn datblygu gwasanaethau heb fod angen ail-dendro ar amserlenni cyfnodol (gydag amhariad a chostau cysylltiedig ar wasanaethau).
- Sicrhau bod y **trydydd sector yn cael ei integreiddio'n ystyrlon i ddarpariaeth y gwasanaeth iechyd**.

- Harneisio gwybodaeth a phrofiad darparwyr presennol a newydd yn well, yn enwedig y rheini o'r trydydd sector.
- Cynyddu'r arfer o gyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth.
- Symleiddio prosesau caffael a chael gwared ar gymhlethdod neu fiwrocratiaeth ddiangen a allai, fel arall, fod yn rhwystr i sefydliadau llai yn y trydydd sector neu'r sector preifat.
- Datblygu marchnadoedd, cynnwys darparwyr newydd, a gweithio mewn modd gwahanol gyda darparwyr presennol i ddarparu proses caffael sy'n seiliedig ar werth ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cleifion, yn hytrach na chanolbwyntio ar y pris yn unig. Yn hytrach na "mynd i'r farchnad", gallai Cymru geisio ychwanegu gwerth cymdeithasol ac economaidd a fframwaith Cymreig unigryw at ddibenion caffael.

Cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru

41. Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud (ac wedyn diwygio neu ddisodli) rheoliadau i sefydlu cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae'r pŵer sylfaenol ar gyfer sefydlu cyfundrefn newydd wedi'i gynnwys yn adran 3 o'r Bil, sy'n mewnosod adran 10A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae'r 'pŵer creu' hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y prosesau i'w dilyn, ac amcanion i'w dilyn, gan awdurdodau perthnasol wrth gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru (a nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny). Mae'r pŵer creu yn ddewisol, ond os caiff ei ddefnyddio, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ar is-ddeddfwriaeth.⁴³ O dan y weithdrefn hon, rhaid i'r rheoliadau drafft sicrhau cydsyniad y Senedd cyn y gellir

⁴³ Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu na all Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth oni fydd y Senedd wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth. Felly, mae'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod gerbron y Senedd ar ffurf drafft, ac ni fydd yn dod i rym oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r drafft. Mae'r weithdrefn hon yn aml yn cael ei chadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth fwy arwyddocaol. At hynny, mae defnydd o'r pwerau yn ddarostyngedig i'r paramedrau a nodir yn y Bil, er enghraifft y gofyniad yn adran 10A(4) newydd o Ddeddf GIG Cymru 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o'r Bil), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau y maent yn eu hystyried yn briodol ynghylch cydymffurfio â'r rheoliadau.

eu gwneud gan Weinidogion Cymru, ond nid oes cyfle i Aelodau gynnig unrhyw welliannau i'r rheoliadau.

42. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi'n gyson na fydd yn pennu manylion unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru hyd nes iddi allu ystyried manylion terfynol y Gyfundrefn Dethol Darparwyr.⁴⁴ Ailadroddodd hyn ar 30 Mawrth 2023, ac ychwanegodd y byddai'r pwerau ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn cynnig y cyfle a'r gallu i gysoni, **pe bydden nhw yn dymuno gwneud hynny.**⁴⁵ Byddai'r canlynol, felly, ymhlith yr opsiynau sy'n agored i Lywodraeth Cymru:

- Peidio â gwneud unrhyw ddefnydd o'r pwerau ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, ac os felly byddai gwasanaethau iechyd (a nwyddau neu wasanaethau cysylltiedig) yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r Bil Caffael unwaith y bydd mewn grym.
- Gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn unig, sy'n adlewyrchiad union o'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr.⁴⁶
- Gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn unig sy'n gwyro o'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr i raddau llai neu i raddau mwy.

43. Mewn tystiolaeth lafar, cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y rhwystrau yn y trefniadau caffael presennol, a'r potensial i unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd fynd i'r afael â'r cyfryw rwystrau. Dywedodd ei bod yn awyddus i gynyddu cyfleoedd ar gyfer y trydydd sector,⁴⁷ a nododd pe bai'n cyflwyno cyfundrefn ar ffurf Gyfundrefn Dethol Darparwyr yng Nghymru, y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau perthnasol benderfynu a ddylid gwneud y canlynol:

- Parhau â contractau a oedd yn gweithio'n dda ac yn rhoi gwerth am arian.

⁴⁴ Gweler, er enghraifft, Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn [paragraff 240], 14 Chwefror 2023; Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad [paragraff 112], 6 Mawrth 2023; Cofnod y Trafodion y Pwyllgor Cyllid [paragraff 14], 8 Mawrth 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 25], 30 Mawrth 2023

⁴⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 30 Mawrth 2023

⁴⁶ Efallai y bydd angen y mymryn lleiaf o wyro, er enghraifft er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau yn nhrefniadaeth y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr.

⁴⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 30 Mawrth 2023

- Dyfarnu contractau yn uniongyrchol lle bo'n briodol.
- Symud ymlaen i dendro cystadleuol lle bo angen.

44. Eglurodd y byddai'r dull hwn, fyddai'n disodli'r trefniadau 'cystadleuaeth yn gyntaf' presennol, yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn lleihau biwrocratiaeth ddiangen.⁴⁸ Wrth ymhelaethu ar hyn, dywedodd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil, y gallai cyfundrefn newydd ar ffurf y Gyfundrefn Dethol Darparwyr gydag agwedd 'cystadleuaeth yn olaf' gynyddu cyfleoedd i gydweithio, annog yr arfer o feithrin perthnasoedd, a rhyddhau capasiti ac adnoddau i ganolbwyntio ar fonitro perfformiad a rheoli contractau.⁴⁹

Cwmpas cyfundrefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd

45. Mae'r cynigion o ran y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn awgrymu y gallai cwmpas y gyfundrefn gaffael newydd yn Lloegr gynnwys yr holl wasanaethau a gwmpesir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, gan gynnwys gofal sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau ysbyty.⁵⁰ Mae'r diffyg eglurder ynghylch cwmpas y gwasanaethau iechyd y byddai unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru yn berthnasol iddynt wedi bod yn ffynhonnell barhaus o ansicrwydd drwy gydol ein gwaith craffu. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid wedi bod yn ansicr a fyddai'r gyfundrefn newydd yn cwmpasu caffael o'r GIG i'r GIG o fewn Cymru neu'n drawsffiniol⁵¹), neu i ba raddau y bydd yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol.

46. Mewn cyflwyniad ysgrifenedig ar y cyd, dywedodd Cytûn, Maint Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, a Masnach Deg Cymru fod y diffiniad o wasanaethau iechyd, a'r nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny, yn yr adran 10A(1) newydd sydd i'w mewnosod i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 2006, yn rhywbeth y gellid ei ddehongli yn eang, a chynnwys gwasanaethau fel arlwyo yn ogystal â phrynu nwyddau megis gwelyau. Nododd y sefydliadau fod y Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu i unrhyw gyfundrefn newydd fod yn berthnasol i gaffael gwasanaethau iechyd o fewn categorïau penodol yn unig, ond ychwanegodd fel a ganlyn:

⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 19 a 21], 30 Mawrth 2023

⁴⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 20 a 120], 30 Mawrth 2023

⁵⁰ Llywodraeth y DU, [Ymgynghoriad: Rhagolwg o'r cynigion ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwr](#), Chwefror 2022 (Saesneg yn unig)

⁵¹ Er enghraifft, yn ôl ei [adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22](#), yn 2021-22 gwariodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys £67.8m ar nwyddau a gwasanaethau gan gyrrff y GIG y tu allan i Gymru.

"If the latter is the policy intention, the wording of the Bill should reflect that, as once the wider power is provided to Ministers it could be used without further need to legislate".⁵²

47. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol beth yw ei disgwyliadau presennol ynghylch pa wasanaethau iechyd a fydd o fewn cwmpas unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Dywedodd:

"We're expecting that this will apply to clinical healthcare services that are defined under sections 1 and 3 of the National Health Service [Wales] Act 2006, and that covers, basically, prevention, treatment and diagnosis of illnesses. So, it's very, very broad".⁵³

48. Ychwanegodd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil:

"...the Bill has been written so that the full scope of clinical services delivered by the NHS could in theory go into this provider selection regime".⁵⁴

49. Eglurodd y byddai diffiniad mwy penodol yn cael ei gynnwys yn y rheoliadau ar sail Codau Geirfa Caffael Gyffredin. Dywedodd fod ymgynghoriad ynghylch y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn nodi tua 40 o Godau Geirfa Caffael Gyffredin i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys o fewn cwmpas unrhyw gyfundrefn newydd yn Lloegr a dywedodd, unwaith y bydd y Gyfundrefn Dethol Darparwyr derfynol ar gael, y bydd y Gweinidog yn ystyried pa Godau Geirfa Caffael Gyffredin sydd i'w cynnwys yng nghwmpas unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru.⁵⁵

50. Dywedodd cyrff iechyd wrthym, pe bai trefniadau yng Nghymru yn cyd-fynd â'r rhai a gynigiwyd ar gyfer Lloegr yn ymgynghoriad y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, byddai'n cwmpasu tua £550 miliwn y flwyddyn o weithgarwch caffael **presennol**.⁵⁶ Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu caffael ar hyn o bryd yn hytrach na'u darparu'n fewnol. Nid yw'n glir a allai awdurdodau perthnasol wneud penderfyniadau gwahanol ar rôl caffael yn eu dull o ddarparu

⁵² HSP2 Cytûn; Maint Cymru; Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru; a Masnach Deg Cymru (Saesneg yn unig)

⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 30 Mawrth 2023

⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 30 Mawrth 2023

⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 30 Mawrth 2023

⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 9 Mawrth 2023

gwasanaethau clinigol o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Er cyd-destun, mae tua £9 biliwn yn cael ei wario'n flynyddol ar wasanaethau craidd y GIG yng Nghymru.

Cydbwysu hyblygrwydd a mesurau diogelu

51. Roedd consensws bod yn rhaid i unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd gynnwys trefniadau priodol at ddibenion diogelu, llywodraethiant ac adrodd, er mwyn sicrhau nad yw'r hyblygrwydd cynyddol yn arwain at beidio â chynnal prosesau caffael mewn modd agored a thryloyw, nac yn arwain at unrhyw leihad yn ansawdd y gwasanaeth na gwerth am arian.⁵⁷ Ymhlith eraill, pwysleisiodd Huw Thomas o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda pa mor bwysig oedd cael trefniadau caffael sy'n dryloyw, wedi'u strwythuro ac wedi'u llywodraethu'n briodol er mwyn osgoi unrhyw ganfyddiad gan y cyhoedd neu randdeiliaid nad yw'r broses briodol yn cael ei dilyn.⁵⁸

52. Roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yn croesawu'r potensial ar gyfer mwy o hyblygrwydd, ond yn nodi y bydd yn dal i fod amgylchiadau pan mai tendro cystadleuol yw'r dull caffael priodol.⁵⁹ Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â hyn, gan nodi y gall tendro cystadleuol helpu i brofi'r farchnad yn ogystal â sicrhau ansawdd a chost-effeithlonrwydd. Dywedodd fod Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau nodi'r camau i'w dilyn mewn ymarfer tendro cystadleuol.⁶⁰

53. Buom yn trafod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr angen i gydbwysu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd megis mwy o hyblygrwydd ac ysgogi a datblygu marchnadoedd, gyda digon o amddiffyniadau a mesurau diogelu rhag drwgdeimlad a llygredd (neu'r canfyddiad o hyn). Cytunodd fod yn rhaid i'r cydbwysedd fod yn gywir, fel bod unrhyw gyfundrefn newydd yn sicrhau tryloywder a diwydrwydd dyladwy tra'n osgoi biwrocratiaeth ddiangen a gweinyddiaeth or-feichus.⁶¹

54. Eglurodd Jonathan Irvine o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o ran ymgynghoriad y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, er ei bod yn cynnig mwy o hyblygrwydd, mae hefyd yn cynnwys elfennau o'r gyfundrefn gaffael bresennol, er

⁵⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 28], 9 Mawrth 2023

⁵⁹ HSP12 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 30 Mawrth 2023

⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 30 Mawrth 2023

enghraifft gofynion i gofnodi, cyfiawnhau a chyhoeddi penderfyniadau a rhoi cyfnodau segur ar waith pan ellir cwestiynu neu herio penderfyniadau caffael. Ychwanegodd mai ei ddisgwyliad yw y byddai rheoliadau sy'n sefydlu cyfundrefn newydd yn cynnwys meini prawf ar gyfer dewis darparwyr, gan gynnwys gwerth, hygyrchedd gwasanaethau a chydaddoldeb, a chanlyniadau.⁶² Yn yr un modd, nododd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil, y cynigion yn y Gyfundrefn Dethol Darparwyr i sicrhau llywodraethiant da a thryloywder. Eglurodd y byddai rhagor o fanylion am unrhyw ddull gweithredu arfaethedig ar gyfer Cymru yn cael eu nodi yn yr ymgynghoriad a gynlluniwyd ar gyfer hydref 2023, a thynnodd sylw at y gofynion yn yr adran 10A(3) newydd (i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 2006 gan adran 3 o'r Bil) i'r rheoliadau wneud darpariaeth at ddibenion sicrhau tryloywder.⁶³

55. Mae adran 3 o'r Bil yn mewnosod adran 10A newydd 2006 yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru). Mae'r adran 10A(2) newydd yn darparu bod rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth sy'n nodi'r camau sydd i'w cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol. Mae'r adran 10A(3) newydd yn nodi'r meini prawf a ganlyn y mae'n rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth at eu dibenion:

- Sicrhau tryloywder.
- Sicrhau tegwch.
- Sicrhau y gellir gwirio cydymffurfiaeth.
- Rheoli achosion o wrthdaro buddiannau.

56. At hynny, rydym yn nodi bod y ddyletswydd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 i Weinidogion Cymru a chyrrff iechyd arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n gwella ansawdd gwasanaethau iechyd (gan gynnwys profiad defnyddwyr gwasanaethau iechyd) wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2023.⁶⁴ Byddai'r ddyletswydd hon yn berthnasol i gyrff iechyd sy'n arfer eu swyddogaethau caffael, ond nid yw'n berthnasol i awdurdodau lleol.

57. Wrth gynnal ein gwaith craffu, clywsom amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer meini prawf yr oedd rhanddeiliaid o'r farn y gallent fod, neu y dylent fod yn rhan

⁶² Cofnod y Trafodion [paragraffau 47, 65 i 66 a 68], 9 Mawrth 2023

⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 188], 30 Mawrth 2023

⁶⁴ Cafodd [canllawiau statudol](#) mewn perthynas â'r ddyletswydd eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2023.

o'r fframwaith ar gyfer cyfundrefn gaffael newydd — boed hynny ar wyneb y Bil, neu yn y rheoliadau neu'r canllawiau.⁶⁵ Roedd y canlynol ymhlith yr awgrymiadau:

- Cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r broses gaffael i gyflenwi Cymru decach, gan alluogi gwell canlyniadau o ran cydraddoldeb drwy sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu cynnwys yn y broses gaffael.
- Gofynion ar gyfer rheoliadau i sicrhau bod contractau'n cael eu rheoli'n effeithiol, gan roi sylw dyledus i werth am arian.
- Gofynion o ran cynnwys cleifion a gofalwyr yn y gwaith o gynllunio ac adolygu gwasanaethau ar y cyd.
- Galluogi darpariaeth wahanol i gael ei gwneud ar gyfer caffael gan ddarparwyr y trydydd sector a'r sector preifat, a/neu rhwng y trydydd sector a busnesau bach a chanolig preifat neu ficroddarparwyr, o'u cymharu â sefydliadau mwy yn y sector preifat.

58. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei barn ynghylch a ddylid ychwanegu unrhyw feini prawf ychwanegol at yr adran 10A(3) newydd i ddarparu ar gyfer ymgynghori a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu'r nwyddau, neu y byddent yn cael eu heffeithio gan y gwasanaethau neu'r nwyddau, ym mhenderfyniadau caffael. Dywedodd ei bod yn disgwyl i awdurdodau perthnasol ystyried anghenion eu cymunedau, ond bod ganddi bryderon am gynnwys gofynion ar gyfer ymgynghori â grŵp ychwanegol sylweddol.⁶⁶ Ychwanegodd y gallai'r rheoliadau a'r canllawiau roi rhagor o fanylion am ddisgwyliadau ar awdurdodau perthnasol yn hyn o beth.⁶⁷

59. At hynny, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei barn ynghylch a allai unrhyw gyfundrefn gaffael newydd gynnwys darpariaeth i alluogi trin darparwyr y sector preifat a'r trydydd sector yn wahanol. Cytunodd y gallai hyn fod yn bosibl: er enghraifft, awgrymodd y gallai

⁶⁵ Gweler, er enghraifft, HSP2 Cytûn; Maint Cymru; Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru; a Masnach Deg Cymru; HSP6 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru; HSP9 Marie Curie; Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 30 Mawrth 2023

⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 187], 30 Mawrth 2023

awdurdodau perthnasol fod yn fwy agored i barhau â chontractau ar gyfer darparwyr trydydd sector, ac i dendro cystadleuol lle darperir gwasanaethau gan ddarparwyr yn y sector preifat. Fodd bynnag, roedd yn gyndyn i unrhyw ddarpariaeth i'r perwyl hwn gael ei chynnwys ar wyneb y Bil ar y sail a ganlyn:

“Well, again, until we know what we’re talking about, it’s really difficult. That’s the problem. And I completely understand, but we don’t know what’s coming, you don’t know what’s coming, and I can see that’s a frustration for you. It’s a frustration for us.”⁶⁸

60. Rhybuddiodd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil, yn erbyn cynnwys meini prawf ychwanegol yn y Bil. Dywedodd y dylid cadw'r fframwaith a ddarperir gan y Bil yn ddigon hyblyg i alluogi unrhyw gyfundrefn newydd a gyflwynir oddi tano i gael ei hadolygu a'i diwygio os oes angen. Dadleuodd y gallai gosod gormod o feini prawf ar wyneb y Bil ei gwneud yn anos addasu i adlewyrchu unrhyw beth a ddysgwyd.⁶⁹

Ein barn ni

61. Yn ôl y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, nid Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yw'r Bil mwyaf cyffrous fyddai wedi dod ger bron y Pwyllgor⁷⁰ a dywedodd y bydd rhan ddiddorol y ddeddfwriaeth hon yn dod pan edrychir ar y rheoliadau.⁷¹

62. Mae'n wir bod ansicrwydd parhaus ynghylch manylion unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd sydd i'w chyflwyno gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil. Serch hynny, rydym yn glir fel Pwyllgor bod yn rhaid i unrhyw gyfundrefn newydd weithredu'n dryloyw, yn deg ac yn agored, a rhaid iddi sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn ystyried anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn eu penderfyniadau caffael, a phwysigrwydd gwella gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion.

63. Wrth gynnal ein gwaith craffu, rydym wedi clywed am amrywiaeth o rwystrau a heriau o fewn y trefniadau caffael presennol, a'r potensial ar gyfer cyfundrefn newydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, a darparu cyfleoedd newydd mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth

⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 199], 30 Mawrth 2023

⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 203 a 205], 30 Mawrth 2023

⁷⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 9], 30 Mawrth 2023

⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 30 Mawrth 2023

Cymru geisio gwneud hyn, ac osgoi ymgorffori unrhyw un o'r rhwystrau presennol wrth ddylunio unrhyw gyfundrefn newydd.

64. Rydym yn deall pam y mae'r Gweinidog yn bwriadu ystyried y Gyfundrefn Dethol Darparwyr derfynol cyn gwneud penderfyniadau ar gwmpas neu ddyluniad unrhyw drefniadau ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn ei gwneud yn anodd rhagweld sut y gallai awdurdodau perthnasol ddefnyddio unrhyw hyblygrwydd sydd ar gael iddynt; sut y gallai'r marchnadoedd ymateb i unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru neu i unrhyw wahaniaeth rheoliadol rhwng Cymru a Lloegr; neu a allai unrhyw gyfundrefn newydd arwain at fwy o rolau yn narpariaeth y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar gyfer y sector preifat a/neu'r trydydd sector.

65. Mae'r ansicrwydd hwn yn deillio'n bennaf o natur fframwaith y Bil. Wrth gynnal ein gwaith craffu, rydym wedi gallu ystyried y pwerau, ond nid sut y cânt eu defnyddio. Ein rôl, felly, yw ystyried a yw'r pwerau fframwaith yn y Bil, ar y naill law, yn dirprwyo pwerau digonol i Lywodraeth Cymru i sefydlu a chynnal cyfundrefn effeithiol, dryloyw a hyblyg sy'n sicrhau chwarae teg o fewn Cymru ac rhwng Cymru a Lloegr, tra hefyd yn adlewyrchu gwerthoedd Cymreig a strwythur sector iechyd a gofal Cymru. Ar y llaw arall, a yw'n rhoi mesurau diogelu digonol ar waith i sicrhau mai dim ond y Gweinidog o dan sylw, a Gweinidogion dilynol, a gaiff ddefnyddio'r pwerau hynny yn unol ag unrhyw egwyddorion, paramedrau neu feini prawf y mae'r Senedd hon yn eu hystyried yn briodol.

Argymhelliad 2. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, ac yn ystod dadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch y modd y bydd y ddarpariaeth yn adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) yn sicrhau bod trefniadau digonol wedi'u hymgorffori mewn unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i sicrhau ei bod yn gweithredu'n agored, yn dryloyw ac mewn modd sy'n rhoi hyder i ddarparwyr a darpar ddarparwyr, yn ogystal â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth ddarparu'r wybodaeth a'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion a rhoi sylwadau ar y galwadau rydym wedi'u clywed y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer awdurdodau perthnasol i ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau caffael.

66. Mae'r diffiniad o 'wasanaethau iechyd' yn y Bil yn eang iawn, a gallai gynnwys yr holl wasanaethau clinigol a ddarperir gan y GIG yng Nghymru. Er i'r Gweinidog nodi bod y Bil yn canolbwyntio'n bennaf ar gaffael darpariaeth gwasanaethau arbenigol (tua £550 miliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif presennol), gallai

cynnwys yr ystod lawn o wasanaethau clinigol a ddarperir gan y GIG yng Nghymru (tua £9 biliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif) o fewn cwmpas unrhyw gyfundrefn gaffael newydd, o bosibl—yn amodol ar benderfyniadau a wneir gan awdurdodau perthnasol ynghylch y modd y maent yn dewis darparu gwasanaethau—gynyddu hyd a lled gweithgarwch caffael yn sylweddol. Mae'n bosibl y bydd angen ehangder y diffiniad ar wyneb y Bil er mwyn darparu digon o hyblygrwydd i'r rheoliadau adlewyrchu neu wyro oddi wrth drefniadau yn Lloegr, ond mae'n amlwg bod rhanddeiliaid yn awyddus i gael eglurder ynghylch pa wasanaethau y gellir eu cynnwys o fewn cwmpas unrhyw gyfundrefn gaffael newydd yng Nghymru. Bydd yn bwysig bod yr ymgynghoriad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2023 yn glir ynghylch bwriadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwmpas unrhyw gyfundrefn newydd.

4. Caffael cymysg

Y cefndir

67. Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae'r adran 10A(1) newydd, sydd i'w mewnosod i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan adran 3 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd **ac** unrhyw nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny. Mae hyn yn adlewyrchu ymgynghoriad y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, sy'n cydnabod ei bod yn anochel y bydd rhai caffaeliadau yn cynnwys elfennau sydd o fewn cwmpas y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ac eraill nad ydynt.⁷²

68. O dan y trefniadau caffael presennol, caiff prosesau caffael cymysg (h.y. y rhai sy'n cynnwys elfennau a fyddai, fel arall, yn cael eu caffael o dan wahanol gyfundrefnau) eu cynnal o dan y gyfundrefn sy'n berthnasol i'r elfen o'r caffael sy'n cynrychioli'r gwerth mwyaf. Esboniodd Jonathan Irvine o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru:

"So, quite often, we buy products, but there are services wrapped around them. So, are we subject to the goods or are we subject to the services? And at present, the rule is, if more than 50 per cent of it is

⁷² Llywodraeth y DU, [Ymgynghoriad: Cyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad atodol ar fanylion cynigion ar gyfer rheoliadau](#), Chwefror 2022 (Saesneg yn unig)

*goods, it's under goods; if more than 50 per cent of that spend, on that contract, is services, it's services"*⁷³

Diffiniad o 'yn gysylltiedig â'

69. Mae adran 10A(1)(b) newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn diffinio nwyddau y gellir eu caffael o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd fel rhan o gaffael cymysg fel "nwyddau neu wasanaethau eraill **sy'n gysylltiedig â'r** gwasanaethau iechyd hynny" [ychwanegwyd pwyslais]. At hynny, mae'r Memorandwm yn nodi y rhagwelir y gallai fod angen i nwyddau o'r fath fodloni meini prawf ychwanegol a nodir mewn rheoliadau "megis terfyn ar werth cymharol".⁷⁴ Mae'r diffiniad cyfatebol yn adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, sy'n darparu'r pŵer creu sy'n sail i'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr, yn nodi fod nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n cael eu **caffael ynghyd â'r** gwasanaethau gofal iechyd hynny. Nid oes unrhyw beth ym Memorandwm Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd sy'n cynnig rheswm dros y diffiniadau gwahanol.

70. Cawsom wybod gan Dafydd Evans, Uwch-swyddog Caffael y Bil, ei fod yn rhagweld y byddai'r gyfundrefn newydd yn eithaf llym mewn perthynas â chaffael cymysg, ac y byddai manylion unrhyw feini prawf y mae'n rhaid eu bodloni yn cael eu nodi yn y rheoliadau a'r canllawiau.⁷⁵ Eglurodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai bwriad y darpariaethau oedd hwyluso'r broses o gaffael gwasanaethau megis gwasanaethau gwaed, na ellid eu caffael heb nwyddau cysylltiedig megis tiwbiau.⁷⁶

71. Rhoddodd Dafydd Evans wasanaethau imiwneiddio fel enghraifft bellach o gaffael cymysg, gan nodi mai prif elfen y gwasanaeth fyddai darparu imiwneiddiadau gan glinigwyr, ond er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n effeithiol, byddai'r caffaeliad yn debygol o gynnwys gwasanaethau gweinyddol.⁷⁷ Gan nodi bod y diffiniad yn adran 10A(1)(b) newydd yn darparu bod yn rhaid i unrhyw nwyddau fod yn gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd perthnasol, dywedodd Mari Williams, uwch gyfreithiwr yn Llywodraeth Cymru, fod hyn yn golygu nwyddau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig mewn ffordd sylweddol. Mewn perthynas â'r potensial i frechlynnau fod yn rhan o gaffael cymysg ar gyfer gwasanaethau

⁷³ Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 9 Mawrth 2023

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#), Chwefror 2023, paragraff 25

⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 30 Mawrth 2023

⁷⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 30 Mawrth 2023

⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 30 Mawrth 2023

imiwneiddio, gwnaeth gydnabod y **gallai'r** brechlynnau hynny fod o fewn cwmpas y diffiniad yn y Bil, ond pwysleisiodd y byddai p'un a **fyddent** o fewn cwmpas unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu beidio, yn dibynnu ar fanylion y meini prawf a nodir yn y rheoliadau a'r canllawiau.⁷⁸

Gwasanaethau dosbarthu fferyllfeydd cymunedol

72. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Fferylliaeth Gymunedol Cymru ei bod yn cefnogi nodau'r Bil i leihau cymhlethdod a gwella hyblygrwydd. Fodd bynnag, cododd bryder penodol mewn perthynas â dosbarthu gwasanaethau. Esboniodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru fod y Bil, yn ôl yr hyn a ddeallai, yn datgan bod meddyginiaethau a chyfarpar yn nwyddau a brynwyd sydd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd caffaeledig o ddosbarthu presgripsiynau. Awgrymodd y byddai hyn yn ganlyniad anfwriadol posibl i ymagwedd fwy hyblyg at gaffael:

"This has the potential, if not recognised and exempted in the Bill, to undermine the existing national community pharmacy contract. [...]

CPW would ask Welsh Government to make it clear in the legislation that the procurement flexibility provided to Welsh Health Boards does not extend to the purchase of medicines and appliances where central contracting arrangements are in place".⁷⁹

73. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym nad oedd am danseilio contractau fferyllfeydd cymunedol sefydledig. Cawsom wybod ganddi fod ymgynghoriad y Gyfundrefn Dethol Darparwyr wedi awgrymu y byddai rhai gwasanaethau fferyllol o fewn y cwmpas, tra na fyddai eraill. Dywedodd:

"So, once we've got a better sense of where their proposed regulations will lie, what I'm hoping to do is to make sure that our officials work with community pharmacy and the contractual framework to make sure that we've landed in a place that works for both of us."⁸⁰

⁷⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 66 a 68], 30 Mawrth 2023

⁷⁹ HSP1 Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Saesneg yn unig)

⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 139], 30 Mawrth 2023

Gofal cymdeithasol

74. Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn amcan allweddol gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Cawsom wybod gan randdeiliaid am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn hyn o beth, gan egluro bod awdurdodau perthnasol yn aml yn disgwyl i ddarparwyr gydweithio i ddarparu gwasanaethau integredig. Roeddent yn pryderu y gallai cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a oedd yn eithrio gwasanaethau gofal cymdeithasol rwystro hyn.⁸¹

75. Eglurodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mai'r un yw'r gwasanaethau iechyd sy'n cael eu caffael gan fyrddau iechyd – gan gynnwys gwasanaethau i bobl â salwch meddwl neu anabledd dysgu, neu bobl sydd angen gofal preswyl, cartrefi nyrsio neu ofal cartref – â'r rheini y mae awdurdodau lleol yn eu comisiynu yng nghyd-destun eu dyletswyddau gofal cymdeithasol. Awgrymodd y gallai'r hyblygrwydd a gynigir ar gyfer gwasanaethau iechyd o fewn y gyfundrefn newydd fod yn fuddiol yn yr un modd i wasanaethau gofal cymdeithasol:

*“A new regime would be beneficial for local authorities for the same reasons that it is said to be beneficial for the NHS. Moreover, it would support efforts to move at pace to deliver greater health and social care integration, and the creation of a co-ordinated, joined up and seamless system that supports people to live well. If the Welsh Government does not allow social services the opportunity to work under the same regime as our health colleagues, then there is a risk that we do not have a level playing field within Wales”.*⁸²

76. Disgrifiodd Huw Thomas o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wasanaethau gofal cymdeithasol fel maes sy'n broblem wirioneddol:

“So, where does the boundary of a domiciliary care provider end—and increasingly so in the future—and health provision begin? I think that's perhaps an area that we need to explore further around that kind of boundary potential. We are working increasingly in integration with

⁸¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

⁸² HSP12 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

social care, so that does provide us with a real challenge. For care homes, I think, it's a real example.”⁸³

77. Mae ymgynghoriad y Gyfundrefn Dethol Darparwyr Llywodraeth y DU yn cynnig dau faen prawf a fyddai, pe caiff y ddau eu bodloni, yn caniatáu trefnu contractau cymysg o wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol (o’u darparu’n uniongyrchol i unigolyn) o dan y Gyfundrefn honno:

- *“the main subject matter of the contract is the delivery of healthcare services to individuals [and]*
- *procuring these services under separate regimes in separate contracts would adversely impact care quality, lead to overall contract aims remaining unfulfilled, or would not be in the best interests of patients, taxpayers, and the population”.*⁸⁴

78. Cawsom wybod gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai ei disgwyliad oedd y gellid caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol fel rhan o broses gaffael cymysg, o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Dywedodd mai’r prawf o ran a oedd caffaeliad yn gaffaeliad gwasanaeth iechyd neu’n gaffaeliad gofal cymdeithasol fyddai a oedd yr elfennau iechyd neu ofal cymdeithasol yn cynnig y gwerth mwyaf.⁸⁵

79. Pan ofynnwyd iddi a ddylai fod wedi mynd ymhellach, a chynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol yn benodol yn eu rhinwedd eu hunain o fewn cwmpas y gwasanaethau y byddai’r gyfundrefn gaffael newydd yn berthnasol iddynt, dywedodd y Gweinidog:

“I think what we're trying to achieve here in the first place is an opportunity, if we want, to have a level playing field. So, England is not going down that route. Now, I think they have an ambition also to integrate more their health and care services as well. So, they're in the same position as we are, effectively, but I think there are legal issues that constrain that.”⁸⁶

⁸³ Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 9 Mawrth 2023

⁸⁴ Llywodraeth y DU, [Ymgynghoriad: Cyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad atodol ar fanylion cynigion ar gyfer rheoliadau](#), Chwefror 2022 (Saesneg yn unig)

⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 104], 30 Mawrth 2023

⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 102], 30 Mawrth 2023

Ein barn ni

80. Bydd yn bwysig i awdurdodau perthnasol, darparwyr a darpar ddarparwyr gael eglurder ynghylch pa gyfundrefn gaffael sy'n berthnasol i ba ymarferion caffael. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chaffael cymysg, h.y. y rhai sy'n cynnwys gwahanol fathau o wasanaethau, neu elfennau o nwyddau yn ogystal â gwasanaethau.

81. Mae'r diffiniad yn adran 10A(1)(b) newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn darparu bod yn rhaid i nwyddau neu wasanaethau eraill h.y. gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd fod yn gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd sy'n cael ei gaffael. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru y bwriedir i hyn ddangos cysylltiad sylweddol, ac y bydd diffiniad pellach yn cael ei nodi mewn unrhyw reoliadau a chanllawiau. At hynny, rydym yn nodi bod geiriad Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn wahanol i'r diffiniad yn Neddf Iechyd a Gofal 2022, sy'n darparu bod yn rhaid i nwyddau neu wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd gael eu caffael ynghyd â'r gwasanaeth iechyd perthnasol.

82. Ein barn ni yw y dylai geiriad Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd fod yn glir mai'r bwriad yw i'r cysylltiad rhwng unrhyw nwyddau a gwasanaethau eraill a'r gwasanaeth iechyd perthnasol fod yn sylweddol ac yn uniongyrchol. Bydd hyn yn helpu i wella ac egluro'r fframwaith a nodir yn y Bil, yn ogystal â sicrhau mai dim ond nawr ac yn y dyfodol y gellir defnyddio'r pwerau yn ôl bwriad y Senedd hon.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno diwygiadau i'r diffiniad yn adran 10A(1)(b) newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) i egluro mai dim ond nwyddau a/neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig yn 'sylweddol' neu'n 'uniongyrchol' â'r gwasanaeth iechyd, all gael eu caffael o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

83. At hynny, rydym yn nodi nad yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu i nwyddau fferyllol ddod o fewn cwrpas nwyddau cysylltiedig o dan unrhyw gyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a bod y bwriad hwn hefyd wedi'i nodi yn ymgynghoriad y Gyfundrefn Dethol Darparwyr Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni, pe bai'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn cynnwys caffael fferyllol o fewn caffaeliadau cymysg, a fyddai hwn yn faes y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu i unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru wyro ohono. Mae'n arbennig o bwysig bod yn glir ar y pwynt hwn, mewn perthynas â'r

potensial ar gyfer caffael fferyllol, fel rhan o gaffael cymysg mewn perthynas â gwasanaethau dosbarthu. Nid ydym am weld unrhyw broses gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn tanseilio'r contract fferylliaeth gymunedol yng Nghymru. Rydym yn croesawu cadarnhad y Gweinidog y bydd yn gweithio gyda chynrychiolwyr fferyllfeydd cymunedol i sicrhau nad yw'r gyfundrefn newydd yn tanseilio contractau presennol.

84. Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a byddai'n destun pryder inni pe bai unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn tanseilio hyn. Cawsom dawelwch meddwl gan awgrym y Gweinidog mai ei bwriad yw y gellir caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd o fewn cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd fel rhan o gaffael cymysg. Fodd bynnag, nodwn mai dim ond os yw elfen gwasanaeth iechyd y caffael yn cynrychioli mwy o werth o fewn y contract na'r elfen gofal cymdeithasol, y bydd hyn yn wir. Er ein bod yn deall bod cwmpas a phwerau creu Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn adlewyrchu'n fras y rheini sydd yn Neddf Iechyd a Gofal 2022 (sydd hefyd yn eithrio gofal cymdeithasol heblaw fel rhan o gaffael cymysg), nodwn bryderon Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y gallai hyn arwain at ddiffyg chwarae teg o ran gofal cymdeithasol yng Nghymru o gymharu ag iechyd.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i asesu a fyddai diwygiadau tebyg i'r rhai a gynigir ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru hefyd yn fuddiol ar gyfer caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol.

5. Ymgysylltu ac ymgynghori

Ymgysylltu ac ymgynghori hyd yma

85. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud na chafodd unrhyw waith ymgynghori ffurfiol ei wneud er mwyn llywio datblygiad y Bil. Mae'n egluro y cynhaliwyd gwaith ymgysylltu anffurfiol â rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys arweinwyr cyllid, caffael a chomisiynu GIG Cymru yn haf 2022 ac undebau iechyd drwy Bwyllgor Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru yn hydref 2022. Mae'n ychwanegu bod ymgynghoriad hefyd wedi digwydd gydag "amryw o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru”, a bod ymgynghoriad gyda “grwpiau economaidd a diwydiant” wedi'i drefnu ar gyfer gwanwyn 2023.⁸⁷

86. Mewn tystiolaeth lafar, disgrifiodd cyrff iechyd y sgwrs barhaus a'r cydweithio agos rhwng Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, cyfarwyddwyr cyllid byrddau iechyd, a Llywodraeth Cymru.⁸⁸ Roeddent yn cydnabod bod ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ar y Bil hyd yma wedi bod yn gyfyngedig, ond, cyfeiriwyd at natur dechnegol y materion, gan ei ddisgrifio'n addas ar gyfer y math o waith sy'n cael ei drafod.⁸⁹ Roeddent yn rhagweld y byddant yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu a drafftio'r rheoliadau a'r canllawiau.⁹⁰

87. Roedd profiadau rhanddeiliaid eraill yn gymysg. Roedd un cyflwyniad gan bedwar sefydliad trydydd sector yn cyferbynnu'r gwaith ymgysylltu dwys gan Lywodraeth Cymru ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus â'u profiad gyda Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, gan ei ddisgrifio fel syndod llwyr iddynt.⁹¹ Disgrifiodd cyfranogwyr yn ein digwyddiad trafod anffurfiol (yr oedd rhai ohonynt yn cynrychioli sefydliadau a enwir yn y Memorandwm Esboniadol) brofiadau cymysg yn yr un modd:

*“Dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod nhw neu eu sefydliadau wedi cael cyfarfodydd anffurfiol â swyddogion Llywodraeth Cymru, er bod y cyfleoedd ar gyfer trafodaeth a deialog yn ystod cyfarfodydd o'r fath wedi amrywio. Dywedodd eraill nad oeddent wedi bod yn ymwybodol o'r Bil na'r ffaith y gallai fod â goblygiadau i'w sefydliadau nes iddynt gael gwahoddiad i gyfrannu i'n gwaith craffu. Roedd rhai sefydliadau wedi dilyn datblygiad trefniadau yn Lloegr, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, ond nid oeddent yn ymwybodol o'i goblygiadau posibl ar gyfer Cymru”.*⁹²

Ymgysylltu ac ymgynghori ar y rheoliadau a'r canllawiau statudol

88. Mewn llythyr dyddiedig 17 Mawrth 2023, amlinellodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei dull gweithredu arfaethedig a'r amserlenni ar

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#), Chwefror 2023, paragraffau 39, 45, 48 a 50

⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 97 a 98], 9 Mawrth 2023

⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 9 Mawrth 2023

⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 118 a 119], 9 Mawrth 2023

⁹¹ HSP2 Cytûn; Maint Cymru; Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru; a Masnach Deg Cymru (Saesneg yn unig)

⁹² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol:

“Ar hyn o bryd, y disgwyliad yw y cynhelir yr ymgynghoriad cyn gynted ag y bydd yn ymarferol, yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd. Byddai hynny'n golygu bod y cyfnod ymgynghori yn debygol o ddechrau yn yr Hydref. Er hynny, mae'r amseru hwn yn seiliedig ar weld y Rheoliadau terfynol a'r canllawiau ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr gan y DHSC yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, er mwyn ein galluogi i ddatblygu egwyddorion gweithredol ar gyfer Cymru, yr ydym yn bwriadu ymgynghori arnynt.

[...]

Ein bwriad presennol yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar egwyddorion gweithredol y gyfundrefn gaffael newydd, yn seiliedig ar sut bydd y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn gweithredu yn Lloegr ac a yw hwn yn ddull y dylem ei atgynhyrchu yng Nghymru i raddau mwy neu lai lle bo'n briodol. Bydd canlyniad yr ymarfer ymgynghori yn llywio datblygu rheoliadau'r dyfodol a chanllawiau statudol (a gaiff eu datblygu mewn partneriaeth â GIG Cymru). O'r herwydd, nid ydym yn cynnig ymgynghori ar hyn o bryd ar fanylion rheoliadau Cymru a chanllawiau statudol”⁹³

89. Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar i ba raddau yr hoffai rhanddeiliaid weld cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn adlewyrchu neu'n gwyro oddi wrth y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr:

“We need to know, 'Look, do you want to do a carbon copy or don't you?’”⁹⁴

90. Mae peth ansicrwydd ynghylch amseru cyhoeddi'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr. Mewn llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2023, yr unig beth oedd yr Arglwydd Markham yn gallu dweud wrthym oedd bod fersiwn drafft terfynol y rheoliadau wrthi'n cael ei baratoi, ac y caiff ei osod gerbron Senedd y DU unwaith

⁹³ [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#), 17 Mawrth 2023

⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 154], 30 Mawrth 2023

y bydd y fersiwn drafft wedi'i gwblhau.⁹⁵ Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, os bydd oedi o ran amseru'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr, ei bwriad fyddai gohirio'r dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru er mwyn iddi allu cynnal y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos a gynlluniwyd.⁹⁶

91. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori yn hydref 2023. Cawsom nifer o awgrymiadau ar gyfer materion yr hoffai rhanddeiliaid eu gweld yn cael sylw yn yr ymgynghoriad yn hydref 2023.⁹⁷ Roedd y rhain yn cynnwys:

- Beth fyddai cyfundrefn gaffael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn unig yn ei olygu ar gyfer comisiynu yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Pa effaith y disgwylir i'r gyfundrefn newydd ei chael ar berthnasau rhwng awdurdodau perthnasol a darparwyr (yn enwedig os yw cyfyngiadau ariannol a/neu bolisi Llywodraeth Cymru yn arwain at waith comisiynu mwy rhanbarthol).
- Sut y bydd y gyfundrefn newydd yn darparu ar gyfer arloesedd ac yn ei hwyluso, gan gynnwys gwasanaethau a ariennir drwy ffynonellau amgen fel grantiau, cyllid elusennol neu gyllid loteri.
- Sut y bydd y gyfundrefn gaffael newydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r heriau a brofir yn y trefniadau caffael presennol.
- Beth fydd yn y rheoliadau a beth fydd yn y canllawiau statudol.

92. Fodd bynnag, mewn cyflwyniad ar y cyd, disgrifiodd Cytûn, Maint Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, a Masnach Deg Cymru eu bod yn bryderus iawn nad oedd unrhyw ofyniad yn y Bil i ymgynghori cyn i reoliadau neu ganllawiau gael eu gwneud, ac awgrymwyd y dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.⁹⁸

93. Gan ystyried natur dechnegol y materion, galwodd rhanddeiliaid am gael gwybodaeth glir a hygyrch a deunyddiau esboniadol gyda'r ymgynghoriad. Rhybuddiwyd, heb y wybodaeth honno, y gallai fod yn anodd i ddarparwyr preifat

⁹⁵ [Llythyr oddi wrth yr Is-ysgrifennydd Cwladol, Seneddol, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU](#), 22 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

⁹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 152], 30 Mawrth 2023

⁹⁷ Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023; HSP10 Platform

⁹⁸ HSP2 Cytûn; Maint Cymru; Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru; a Masnach Deg Cymru

llai, sefydliadau trydydd sector neu gontractwyr annibynnol fel meddygon teulu neu ddeintyddion ymgysylltu ac ymateb yn ystyrlon. Roeddent hefyd yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol trefnu digwyddiadau ymgysylltu anffurfiol naill ai cyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, neu'n gynnar yn y broses honno, i helpu rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r materion cyn ymateb.⁹⁹ Gallai digwyddiadau o'r fath ganolbwyntio, er enghraifft, ar egluro pwyntiau allweddol yn y ddeddfwriaeth a'i heffeithiau posibl.¹⁰⁰

94. Dywedodd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil, yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol, bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu siarad â rhanddeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau gwirfoddol. Eglurodd mai'r bwriad oedd paratoi'r ffordd ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol fel nad yw'n dechrau'n stond a'u bod yn deall, i bob pwrpas, beth sydd i ddod.¹⁰¹

Ymgysylltu ac ymgynghori rhynglywodraethol

95. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym nad oedd gwaith Llywodraeth y DU o ddatblygu ei chynigion ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr wedi cynnwys unrhyw ystyriaeth gychwynnol o'r goblygiadau posibl i Gymru. Dywedodd nad oedd yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn wych i ddechrau, ond ychwanegodd fod y sefyllfa'n sicr wedi gwella. Cadarnhaodd fod Llywodraeth y DU wedi rhannu fersiwn drafft cynnar o'r rheoliadau'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig gyda Llywodraeth Cymru, a bod cytundeb y byddai swyddogion yn cysylltu ar drefniadau trawsffiniol wrth i ganllawiau gael eu datblygu.¹⁰²

96. Dywedodd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil, wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 6 Mawrth 2023, er nad yw Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Gaffael Cyhoeddus, roedd y mecanweithiau o fewn y fframwaith cyffredin wedi rhoi cyfleoedd i drafod:

"We have had discussions under the common frameworks, and they're important methods for managing that. So, we recognise that,

⁹⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

¹⁰⁰ HSP7 Gofal a Thrwsio Cymru

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 156], 30 Mawrth 2023

¹⁰² Cofnod y Trafodion [paragraffau 10 a 23], 30 Mawrth 2023

and we'll continue to use the framework mechanisms for discussions with the other nations".¹⁰³

97. Mewn llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2023, cadarnhaodd yr Arglwydd Markham, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod fersiwn drafft o'r rheoliadau'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr wedi'i rannu'n gyfrinachol â Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod hyn wedi dilyn trafodaethau rhwng swyddogion a Gweinidogion, a chytundeb rhwng y Llywodraethau y byddent yn parhau i gydweithio ar ganlyniadau Deddf Iechyd a Gofal 2022, gan gynnwys darparu'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr.¹⁰⁴

Ein barn ni

98. Mae natur fframwaith Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, a'r materion technegol y mae'n mynd i'r afael â nhw, yn cyflwyno heriau o ran ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r amserlenni ar gyfer datblygu a chraffu ar y Bil yn gwneud yr heriau hyn yn anoddach. Er bod cyrff iechyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, mae'r graddau y mae rhanddeiliaid eraill wedi bod ynghlwm â'r gwaith—neu hyd yn oed yn ymwybodol o'r diwygiadau posibl—yn amrywio'n sylweddol. Mae'n bwysig bod mwy o ddeialog rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid wrth i gynigion gael eu datblygu ac wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

99. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar i ba raddau y dylai trefniadau ar gyfer Cymru adlewyrchu neu wyro oddi wrth y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r Gweinidog yn bwriadu cynnwys rheoliadau neu ganllawiau drafft yn yr ymgynghoriad. Fel y mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym, mae'n rhaid sicrhau bod y manylion yn gywir, felly bydd yn bwysig bod yr ymgynghoriad yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ymateb yn ystyrlon.

100. Nid ydym yn amau ymrwymiad y Gweinidog i ymgynghori. Fodd bynnag, credwn y byddai'n gliriach pe bai gofyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid cyn i'r pwerau llunio rheoliadau a chanllawiau statudol gael eu defnyddio am y tro cyntaf eu cynnwys ar wyneb y Bil.

¹⁰³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 6 Mawrth 2023

¹⁰⁴ [Llythyr oddi wrth yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU](#), 22 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau i gynnwys gofynion ar wyneb Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid cyn i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran newydd 10A(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w fewnosod gan adran 3 o'r Bil) gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.

101. Rydym yn croesawu'r arwyddion gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eu bod bellach yn cydweithio'n adeiladol; gresyn ei bod hi'n ymddangos na wnaeth hyn ddigwydd yn gynharach. Gallai ymgysylltu cynharach fod wedi caniatáu, er enghraifft, i'r darpariaethau ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd gael eu hymgorffori wrth ddatblygu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

102. Bydd yn rhaid i Senedd y DU graffu ar reoliadau'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Os bydd y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, byddwn yn ysgrifennu at Gyd-bwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol, Pwyllgor Craffu Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi, ac Aelodau Seneddol o Gymru i rannu copi o'r adroddiad hwn ac i ofyn iddynt, pan fyddant yn craffu ar reoliadau'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr, i ystyried unrhyw oblygiadau posibl i Gymru gan gynnwys materion trawsffiniol.

6. Gweithredu'r gyfundrefn gaffael newydd

Capasiti a hyfforddiant: awdurdodau perthnasol

103. Fel y nodir ym mhennod 3, gallai cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd gynnig cyfleoedd i wella caffael, rheoli contractau, datblygu'r farchnad, meithrin perthnasoedd a chydweithio. Fodd bynnag, bydd effaith unrhyw gyfundrefn newydd, ac i ba raddau y gellir gwireddu'r cyfleoedd hyn, yn dibynnu i raddau helaeth ar sut y caiff ei gweithredu a sut y mae awdurdodau perthnasol yn ymateb.

104. Dywedodd Huw Thomas o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y byddai'n bwysig sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau perthnasol yn deall y cyfleoedd posibl, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod cleifion a chymunedau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn ogystal ag ysgogi

cyfleoedd lleol a busnesau lleol i fynd i mewn i'r farchnad, drwy leihau'r rhwystrau i fynediad.¹⁰⁵

105. Er nad yw cwmpas penodol unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd sydd i'w diffinio mewn rheoliadau yn glir eto, mae'n sicr na fydd yn cynnwys gweithgarwch caffael pob awdurdod perthnasol. Fel isafswm, bydd caffael y canlynol yn amodol ar gyfundrefnau caffael eraill:

- Nwyddau a/neu wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â gwasanaethau iechyd.
- Nwyddau a/neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd, ond sy'n cynrychioli cyfran fwy o werth caffael na'r gwasanaeth iechyd y maent yn gysylltiedig ag ef.
- Gwasanaethau iechyd nad ydynt ymhlith y rhai a bennir mewn rheoliadau o dan adran 10A newydd Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 2006.

106. Felly bydd angen i awdurdodau perthnasol ddeall a gweithredu sawl cyfundrefn gaffael.

107. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod yna ddryswch wedi bod ynglŷn â gweithredu'r gyfundrefn bresennol, a disgrifiodd bod cael hyfforddiant ar unrhyw gyfundrefn newydd yn hollbwysig er mwyn i sector cyhoeddus Cymru gael y budd gorau posibl o ddarpariaethau'r Bil.¹⁰⁶

108. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau perthnasol i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn ogystal â'r gyfundrefn gaffael sector cyhoeddus newydd sy'n deillio o'r Bil Caffael. Eglurodd ei bod yn disgwyl i'r ddwy gyfundrefn newydd gael eu cyflwyno tua'r un pryd, ac y byddai'n well cydlynu'r hyfforddiant ar gyfer awdurdodau perthnasol ar y ddwy gyfundrefn.¹⁰⁷ Roedd Jonathan Irvine o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn croesawu'r dull hwn gan ddweud:

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 24 a 80], 9 Mawrth 2023

¹⁰⁶ HSP3 Cyngor Sir Ceredigion (Saesneg yn unig)

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 104], 30 Mawrth 2023

“...we would rather just make the change of everything in the same sort of period of time so that we've got a full switch from the regulations, as they are now, to the new arrangements.”¹⁰⁸

109. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad oeddent yn amau a fyddai awdurdodau perthnasol am weithredu'r gyfundrefn newydd mewn ffordd a fyddai'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd posibl i Gymru. Fodd bynnag, roeddent yn pryderu y byddai'r gallu i gyflawni hyn yn cael ei gyfyngu oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau yn swyddogaethau caffael awdurdodau perthnasol.¹⁰⁹ Disgrifiodd Gofal a Thrwsio Cymru yr angen am welliannau mewn tryloywder, cyfathrebu a phrosesau, ond awgrymodd fod y problemau a brofwyd ganddo yn deillio llai o'r fframwaith deddfwriaethol presennol o gymharu â chapasiti, materion adnoddau a phwysau o ochr y bwrdd iechyd.¹¹⁰

110. Mewn perthynas â chyrrff iechyd, cyfeiriodd Huw Thomas o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda at y cwmpas i fyrddau iechyd weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i wneud y gorau o'r cyfleoedd o'r gyfundrefn newydd.¹¹¹ Roedd Jonathan Irvine o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn hyderus y byddai GIG Cymru yn barod ar gyfer gweithredu unrhyw gyfundrefn newydd ar yr amod bod digon o fuddsoddiad ar gael i roi'r trefniadau adrodd a llywodraethu cywir ar waith, ac i gynllunio a darparu hyfforddiant a gwaith gweithredu arall.¹¹² Awgrymodd y gallai cyfundrefn sy'n cynyddu hyblygrwydd ar gyfer caffael, ac sy'n symud i ffwrdd o'r angen i dendro cystadleuol, ryddhau rhywfaint o gapasiti ac arbenigedd caffael a allai wedyn ganolbwyntio ar sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian:

“At the minute, in terms of the area that we influence through competitive tendering procurement activity, we're just at about £60 million to £70 million-worth of expenditure per annum. Bear in mind, however, that the total spend on healthcare services that this Bill would cover for the whole of Wales is in the region of £550 million per annum. I have a dedicated team that looks after national, all-Wales projects on the healthcare service's procurement. I also have procurement teams embedded with the health boards around Wales

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 50], 9 Mawrth 2023

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

¹¹⁰ HSP7 Gofal a Thrwsio Cymru (Saesneg yn unig)

¹¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 9 Mawrth 2023

¹¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 9 Mawrth 2023

[...] which look after the local requirements for healthcare services provision in those areas. What this opportunity brings, then, is the opportunity to almost free up some time for my staff to look at some of the other areas of spend in that £550 million piece that we now need to focus on, and we can apply this much more flexible approach to ensuring that we have good governance and good transparency around that, and that we are getting good value for money in those areas as well".¹¹³

111. Clywsom bryderon penodol ynghylch a oedd digon o gapasiti yn swyddogaethau caffael awdurdodau lleol. Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod y bwriad i gael mwy o hyblygrwydd i leihau'r pwysau ar dimau caffael, ond rhybuddiodd fod dibynnu gormod ar ddyfarnu contractau'n uniongyrchol yn cynyddu'r risg o arferion annheg, a hefyd yn peryglu ansefydlogi marchnadoedd a lleihau meddwl strategol.¹¹⁴ Cyfeiriodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru at y potensial yng nghynigion y Gyfundrefn Dethol Darparwyr cychwynnol i wella trefniadau gweinyddol a lleihau'r baich ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rhybuddiodd ei bod yn ymddangos bod y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn dod yn fwy cymhleth wrth iddi ddatblygu, gan ychwanegu:

"The operational freedoms promised by the PSR now seem to require additional process. We are concerned that the overall process for PSR is beginning to look onerous and it is something we would not want to see recreated in Wales".¹¹⁵

112. Yn ystod ein digwyddiad anffurfiol i randdeiliaid, nodwyd y gallai awdurdodau lleol fod yn llai abl na chyrrff iechyd i nodi maint y gweithgarwch caffael posibl o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd, gan y gallai rhywfaint o waith caffael y gwasanaeth iechyd fod yn eu rôl fel rhieni corfforaethol yn hytrach na darparu gwasanaeth ehangach wedi'i gynllunio.¹¹⁶

113. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch capasiti timau caffael awdurdodau perthnasol i addasu a gweithredu'r

¹¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 9 Mawrth 2023

¹¹⁴ HSP3 Cyngor Sir Ceredigion (Saesneg yn unig)

¹¹⁵ HSP12 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

¹¹⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

gyfundrefn newydd, a pha drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y mae llywodraeth leol a chaffael cyhoeddus yn rhan o'i phortffolio. Roedd yn cydnabod y byddai angen hyfforddiant, ond dywedodd nad oes diben mynd yn rhy bell i roi'r paratodau hynny ar waith nes eu bod yn gwybod beth fydd y rheoliadau.¹¹⁷ Wrth holi ymhellach ynghylch capasiti awdurdodau lleol, dywedodd:

"So, they know that this is coming; they're gearing up for it, they know that they're going to have to gear up for the new Public Procurement (Wales) Bill anyway. The issue about whether there are enough of them is beyond the scope of what I'm able to deal with here. That's a matter for local authorities".¹¹⁸

Hygyrchedd a chyfathrebu

114. Roedd consensws cyffredinol, os cyflwynir cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng ngwanwyn 2024, fel y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi yw ei bwriad, bydd angen cyfathrebu'r gyfundrefn yn glir i awdurdodau a rhanddeiliaid perthnasol. Galwodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am raglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y Bil hwn pe bai'n cael ei ddeddfu. Dywedodd y byddai angen hyn er mwyn cefnogi'r trydydd sector, yn enwedig y rhai sy'n cynnig gwasanaethau trawsffiniol, a rhybuddiodd, os nad oes cymorth ar gael i ddarparwyr a darpar ddarparwyr, y gallai sefydliadau llai fod dan anfantis o gymharu â rhai mwy.¹¹⁹ Pwysleisiodd Marie Curie yn yr un modd yr angen am gyfathrebu clir a hygyrch ynghylch y gyfundrefn newydd pan fydd yn cael ei rhoi ar waith, gan amlygu bod y capasiti a'r arbenigedd caffael yn amrywio ar draws sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau neu a allai fod yn dymuno darparu gwasanaethau.¹²⁰

115. Cyfeiriodd cyfranogwyr yn ein trafodaeth anffurfiol â rhanddeiliaid hefyd at yr heriau i sefydliadau llai yn y trydydd sector neu'r sector preifat o ran llywio cymhlethdodau gwahanol gyfundrefnau caffael. Roeddent yn galw am i'r rheoliadau a'r canllawiau fod yn glir, yn hygyrch ac yn hawdd eu deall, gan rybuddio, os nad dyna'r achos, neu os nad yw'n glir pa gyfundrefnau sy'n berthnasol i ba wasanaethau, y gallai darparwyr ac awdurdodau perthnasol fod yn

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 106], 30 Mawrth 2023

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 30 Mawrth 2023

¹¹⁹ HSP4 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Saesneg yn unig)

¹²⁰ HSP9 Marie Curie (Saesneg yn unig)

rhagofalus neu'n amharod i fanteisio ar gyfleoedd posibl i gydweithio mewn timau amlddisgyblaethol neu ar draws sectorau.¹²¹

116. Dywedodd Huw Thomas o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod gan awdurdodau perthnasol rôl hefyd i'w chwarae o ran addysgu darparwyr a darpar ddarparwyr am y gyfundrefn newydd. Awgrymodd y gallai awdurdodau perthnasol ymgysylltu â'r farchnad helpu i wneud yn siŵr bod darparwyr yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd a allai ddod ar eu cyfer.¹²²

117. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sut y byddai'n sicrhau bod awdurdodau perthnasol, darparwyr a darpar ddarparwyr yn deall y drefn newydd. Dywedodd wrthym y byddai'r ymgynghoriad a gynlluniwyd ar gyfer hydref 2023 yn helpu gyda hyn:

"So, as you've heard today, this is quite complex. It's quite technical, and, actually, the public don't really need to get engaged in all of this. This is quite a niche group of people who need to understand this, so they're the people that we're most keen to communicate with. We've already done an informal consultation with them. Once we get much more clarity, in terms of what the regulations look like in England, we will then be in a position to do our formal consultation—12-week consultation—that will make sure that we're really getting engaged and involved with the people who will be impacted by this. So, that's all ready to roll, once we've, obviously, got this through the Senedd and we get the bit more formal detail from Westminster."¹²³

Amserlenni gweithredu

118. Pan gaiff ei weithredu (disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn 2024) bydd y Bil Caffael yn disodli trefniadau caffael presennol y sector cyhoeddus o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu esemptio caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr o'r trefniadau newydd drwy ddefnyddio pŵer datgymhwyso Lloegr yn unig yn y Bil Caffael a'r pŵer creu i Loegr yn unig yn Neddf Iechyd a Gofal 2022. Pe na bai unrhyw gamau deddfwriaethol yn cael eu cymryd yng Nghymru, byddai'r trefniadau newydd o

¹²¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

¹²² Cofnod y Trafodion [paragraff 69], 9 Mawrth 2023

¹²³ Cofnod y Trafodion [paragraff 143], 30 Mawrth 2023

dan y Bil Caffael yn berthnasol i gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu defnyddio'r pwerau datgymhwyso a chreu ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd i esemptio caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o'r Bil Caffael, a gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar gyfer Cymru yn unig. Fodd bynnag, os caiff y Bil Caffael ei roi ar waith cyn unrhyw gyfundrefn newydd yng Nghymru o dan y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, bydd cyfnod pan fydd caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r Bil Caffael. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n debygol y bydd caffael y gwasanaeth iechyd yn Lloegr yn ddarostyngedig i'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr.

119. Buom yn trafod goblygiadau posibl y cyfnod hwn gyda chyrff iechyd, a chyda rhanddeiliaid yn ein digwyddiad trafod anffurfiol. Eglurodd Jonathan Irvine o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru fod cylch parhaus o gontractau, ac y byddai unrhyw rai sy'n dod i ben cyn i unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd gael ei chyflwyno o dan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn ddarostyngedig i'r trefniadau presennol o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu, unwaith y bydd wedi'i weithredu, y trefniadau newydd o dan y Bil Caffael. Eglurodd:

"Under the current regulations, we'll need to go out to the market under full competitive tendering. So, the timing of those will be critical to make sure that we don't disadvantage the renewal or continuation of those services, because the timing of the Bill's passage in Wales is significantly behind what England are doing."¹²⁴

120. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, os bydd y newid yn y cyfundrefnau caffael yn arwain at oedi wrth gomisiynu gwasanaethau, gallai hyn effeithio ar bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau o'r fath neu'n aros am y gwasanaethau hynny a'r risg y bydd materion yn ymwneud ag iechyd neu dlodi yn gwaethygu yn y tymor byr.¹²⁵ Roedd consensws eang ymhlith y rhai a gymerodd ran yn ein trafodaeth â rhanddeiliaid y gallai oedi hir rhwng gweithredu'r gwahanol gyfundrefnau darfu ar bethau, ond y byddai modd cyfiawnhau rhywfaint o oedi pe bai'n golygu bod unrhyw gyfundrefn o dan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn iawn i Gymru. Roeddent yn awgrymu y bydd natur a graddau effaith unrhyw oedi—a allai gynnwys, er enghraifft, clinigwyr yn ansicr ynghylch pa wasanaethau a allai fod ar gael a ddim yn hyderus ynghylch

¹²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 52], 9 Mawrth 2023

¹²⁵ HSP4 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Saesneg yn unig)

gwneud atgyfeiriadau—yn dibynnu ar hyd ac amseriad y cyfnod, a'r amseriadau a'r trefniadau penodol ar gyfer contractau unigol.¹²⁶

Adolygu a gwerthuso

121. Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylai'r gwaith o weithredu'r Bil, ac unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a gyflwynir o dan y Bil, barhau i fod yn destun adolygiad i sicrhau ei fod yn gweithio fel y bwriadwyd:

- Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod angen craffu er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd a gyflwynir gan gyfundrefn newydd yn cael eu gwireddu. Yn benodol, tynnodd sylw at bryderon a nododd y Groes Goch Brydeinig y gallai mwy o hyblygrwydd i awdurdodau perthnasol arwain at fwy o gymhlethdod i ddarparwyr a darpar ddarparwyr, ac awgrymodd gyflwyno mecanwaith adrodd i alluogi darparwyr i roi adborth.¹²⁷
- Dywedodd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru y dylai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fod yn broses barhaus, ac y dylid monitro ac adolygu effaith y Bil lle bo angen.¹²⁸

122. Dywedodd Dafydd Evans, Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro'r gwaith o weithredu'r gyfundrefn gaffael newydd, ac y byddai'n gwerthuso ar ôl cyfnod penodol o amser sut mae'r gyfundrefn gaffael yn gweithio ac ymgorffori hynny mewn unrhyw adolygiadau.¹²⁹

Ein barn ni

123. Bydd i ba raddau y bydd unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn cyflawni ei hamcanion arfaethedig yn dibynnu a oes gan awdurdodau perthnasol, darparwyr a darpar ddarparwyr y capasiti, yr adnoddau a'r ddealltwriaeth i weithredu o dan y trefniadau newydd ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd posibl a allai godi. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth, er bod ewyllys i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn, bod pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r capasiti ar gael. Mae'n amlwg, po gynharaf y ceir eglurder ynghylch cwmpas, cynllun ac amserlenni tebygol unrhyw gyfundrefn newydd, y mwyaf effeithiol y gall

¹²⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023; Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 9 Mawrth 2023

¹²⁷ HSP4 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Saesneg yn unig)

¹²⁸ HSP6 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

¹²⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 120], 30 Mawrth 2023

awdurdodau perthnasol, darparwyr a darpar ddarparwyr gynllunio a'r mwyaf tebygol y bydd unrhyw darfu ar wasanaethau yn cael ei leihau neu ei osgoi.

124. Mae rôl Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cryfhau'r sefyllfa ar gyfer cyrff iechyd, a deallwn fod y Partneriaeth eisoes yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei chynigion. Rydym yn poeni mwy am i ba raddau y mae digon o gapasiti mewn awdurdodau lleol i'w galluogi i addasu i gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar yr un pryd â chyfundrefn gaffael ehangach yn y sector cyhoeddus. Nid ydym wedi cael sicrwydd eto bod y Gweinidog Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cydweithio i sicrhau bod awdurdodau lleol wedi'u paratoi'n ddigonol neu y bydd ganddynt y capasiti sydd ei angen arnynt.

125. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol y bydd yr ymgynghoriad y mae'n bwriadu ei gynnal yn hydref 2023 yn gyfle defnyddiol i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a ragwelir ac y bydd yn rhoi amlinelliad bras o'i dull gweithredu arfaethedig. Fodd bynnag, ochr yn ochr â gweithredu unrhyw gyfundrefn newydd (a ddisgwylir yn ystod gwanwyn 2024) bydd angen ymgyrch gyfathrebu glir a hygyrch i sicrhau bod awdurdodau perthnasol, darparwyr a darpar ddarparwyr yn y trydydd sector a'r sector preifat, a darparwyr a darpar ddarparwyr o bob maint, yn deall manylion y trefniadau newydd.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod y gwaith o weithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a gofynion y gyfundrefn honno (a ddisgwylir yng ngwanwyn 2024) yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac ar gael i'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys awdurdodau perthnasol, a darparwyr neu ddarpar ddarparwyr yn y sector preifat a thrydydd sector.

126. Rydym yn croesawu'r awgrym gan Uwch-swyddog Cyfrifol y Bil bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro ac adolygu'r gwaith o weithredu unrhyw gyfundrefn newydd i sicrhau ei bod yn gweithredu yn ôl y bwriad. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y Bil hwn, gan ei bod yn dal yn ansicr faint o drefniadau yng Nghymru a fydd yn adlewyrchu neu'n gwyro oddi wrth drefniadau yn Lloegr (gan gynnwys nid yn unig y trefniadau cyntaf a fydd yn cael eu gwneud yn Lloegr, ond hefyd unrhyw newidiadau a wneir i'r trefniadau hynny yn y dyfodol), a pha effaith y gallai unrhyw wyro ei chael. Fodd bynnag, gan nad oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth ar gyfer adolygu'r Bil na'r gyfundrefn sydd i'w chyflwyno mewn rheoliadau a chanllawiau, byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch sut a phryd y bydd y gyfundrefn yn cael ei hadolygu, a chadarnhad y bydd canlyniadau unrhyw adolygiad yn cael eu cyhoeddi.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd effaith ac effeithiolrwydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), ac unrhyw reoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano, yn cael eu monitro a'u hadolygu. Dylai hyn gynnwys eglurder ar yr amserlenni ar gyfer unrhyw gamau gweithredu, a chadarnhad y bydd canlyniadau unrhyw adolygiad yn cael eu cyhoeddi.

7. Cysondeb â'r cyd-destun polisi, deddfwriaethol a strategol ehangach

Cyd-destun polisi, deddfwriaethol a strategol yng Nghymru

127. Drwy gydol ein gwaith craffu, mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio'r angen i unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru adlewyrchu'r cyd-destun polisi, deddfwriaethol a strategol ehangach, bod yn gyson â'r cyd-destun hwnnw a chyfrannu ato. Rydym wedi clywed galwadau am fwy o eglurder ynghylch sut y bydd unrhyw gyfundrefn newydd yn cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach, boed hynny drwy'r ddarpariaeth ar wyneb y Bil, mewn rheoliadau, mewn canllawiau statudol, neu yn y Memorandwm Esboniadol. Roedd rhanddeiliaid yn pryderu, fel arall, y gallai'r gyfundrefn newydd danseilio amcanion presennol Llywodraeth Cymru. Roedd y materion penodol yn cynnwys:¹³⁰

- P'un a fydd cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r cyflog byw a gwaith teg), a ph'un a fydd y gyfundrefn yn cael ei chynnwys yng nghwmpas y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.
- P'un a fydd cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Awgrymodd Cytûn, Maint Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, a Masnach Deg Cymru y dylid paratoi asesiad o effaith i ddangos hyn.

¹³⁰ Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Gymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023; HSP2 Cytûn; Maint Cymru; Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru; a Masnach Deg Cymru; HSP4 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; HSP6 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru; HSP11 Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru

- Unrhyw oblygiadau i'r ymrwymiad yn rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG i ddefnyddio contractau mewnol ac allanol i leihau amseroedd aros.¹³¹
- Unrhyw ryngweithio â'r ymgynghoriad a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ar y fframwaith comisiynu gofal cymdeithasol, a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Goblygiadau posibl ar gyfer ymrwymadau i fod yn Genedl Masnach Deg ac yn Genedl Dim Datgoedwigo, datblygu'r Economi Sylfaenol, dileu caethwasiaeth fodern o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, mesur allyriadau defnydd o ran carbon, a Sero Net a thargedau colli bioamrywiaeth. Nodwyd hefyd, lle mae nwyddau cysylltiedig yn cael eu caffael fel rhan o gaffael cymysg, bod risg y gallai cadwyni cyflenwi gynnwys 'arferion problematig' oni bai bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud naill ai ar wyneb y Bil, mewn rheoliadau neu mewn canllawiau statudol.
- Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

128. Mewn tystiolaeth lafar, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod angen sicrhau bod unrhyw gyfundrefn gaffael newydd yn cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach. O ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a sut mae'r Bil yn rhyngweithio â'r fframwaith comisiynu gofal cymdeithasol, ymrwymodd i ymgysylltu â phartneriaid statudol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol.¹³² Yn yr un modd, mewn perthynas â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, dywedodd y byddai'n ystyried sut y byddai rheoliadau yn y dyfodol yn gyson â'r Cod.¹³³

Dyletswyddau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

129. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

"114. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ystyried a nodwyd na fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar gydraddoldeb i bobl Cymru.

¹³¹ Llywodraeth Cymru, Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros y GIG, Ebrill 2022

¹³² Cofnod y Trafodion [paragraff 109], 30 Mawrth 2023

¹³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 30 Mawrth 2023

115. Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei ystyried ymhellach wrth ddatblygu rheoliadau a chanllawiau a gynhrychir mewn perthynas â chyfundrefn caffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG.”¹³⁴

130. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn cydnabod hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd botensial caffael er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol a gwella canlyniadau i bobl â nodweddion gwarchoddedig, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ystyried ymhellach yr effeithiau cadarnhaol posibl ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffael. Ychwanegodd fod gan Lywodraeth Cymru, fel corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("PSED"), rwymedigaethau statudol i ymgysylltu â phobl neu gynrychiolwyr pobl â nodweddion gwarchoddedig.¹³⁵

131. Yn ystod ein trafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid, rhybuddiodd rhanddeiliaid am y risgiau o fethu â nodi cyfleoedd yn y Bil (ac unrhyw reoliadau neu ganllawiau) i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol, neu o atgyfnerthu anghydraddoldebau sy'n bodoli'n anfwriadol.¹³⁶

132. Mae awdurdodau perthnasol, fel y'u diffinnir yn adran 10A(6) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 2006 gan adran 3 o'r Bil, yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod GIG Cymru yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac na fydd y Bil yn effeithio ar hyn.¹³⁷ Nid yw'n dweud dim ynghylch awdurdodau lleol, er bod awdurdodau lleol yn yr un modd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

133. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:

¹³⁴ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#), Chwefror 2023, paragraffau 114 i 115

¹³⁵ HSP6 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

¹³⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodaeth anffurfiol, 22 Mawrth 2023

¹³⁷ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\)](#), Chwefror 2023, paragraff 116

“Public bodies will need to have ‘due regard’ at all stages of the health service procurement process to the need to advance equality”.¹³⁸

134. Bydd angen i awdurdodau perthnasol, a'r Comisiwn Cydraddoldeb fel rheoleiddiwr y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ddeall sut mae'r Ddyletswydd honno, y ddyletswydd caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, a'r ddyletswyddau o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a gyflwynir gan reoliadau a chanllawiau a wneir o dan y Bil Caffael yn rhyngweithio â'i gilydd. Awgrymodd y Comisiwn Cydraddoldeb y byddai'n ddefnyddiol i'r Memorandwm Esboniadol gael ei ddiweddarau, ac i unrhyw ganllawiau statudol a gynhrychir o dan yr adran 10A(4) newydd egluro'r canlynol:

“...how the potential synergies in aligning the requirements under the PSED, SPPP(W)B and the proposed Health Service Procurement (Wales) Bill can combine to bring about the greatest impact. These may be lost, lead to confusion and duplication if the PSED is not positioned as a strong lever that can sit alongside other Wales specific legislation”.¹³⁹

135. Mewn tystiolaeth lafar ar 30 Mawrth 2023, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Gymdeithasol wrthym y byddai'r ymgynghoriad a gynlluniwyd ar gyfer hydref 2023 yn cynnwys asesiad effaith integredig, gan gynnwys asesiad o unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb.¹⁴⁰ Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd fod y Bil a'r rheoliadau yn 'fater caffael technegol' yn ymwneud â sut mae awdurdodau perthnasol yn comisiynu, ac mai mater iddyn nhw yw penderfynu ar faterion polisi ynghylch yr hyn y mae awdurdodau perthnasol am ei gomisiynu:

“So, I think it's really important we don't go down a policy route here; this is a technical procurement issue. What health boards want to do and what they want to commission is a separate issue. How they commission is what we're talking about here.”¹⁴¹

¹³⁸ HSP6 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

¹³⁹ HSP6 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 30 Mawrth 2023

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 30 Mawrth 2023

Rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

136. Mae Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (“UKIMA 2020”) yn sefydlu marchnad fewnol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn y DU, gyda’r nod o sicrhau y gellir masnachu nwyddau a gwasanaethau’n rhydd ar draws y DU gyfan. Mae gwasanaethau iechyd wedi’u heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020; felly, i’r graddau y mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn berthnasol i wasanaethau iechyd, nid oes unrhyw rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Nid oes unrhyw eithriad cyfatebol ar gyfer nwyddau cysylltiedig a gaffaelwyd fel rhan o gaffael cymysg.

137. Eglurodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn llythyr dyddiedig 17 Mawrth 2023:

“Safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad yw Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd - h.y. nid yw’n atal y Senedd rhag gwahardd neu reoleiddio gwerthu amrywiaeth o nwyddau yng Nghymru, er enghraifft, oni bai bod yr un eitemau hefyd yn destun gwaharddiadau neu reoleiddio cyfatebol ledled y DU, neu am fod Llywodraeth y DU wedi cytuno i waharddiad penodol ar fater. Byddai cyflawni hyn, o gofio statws Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fel statud cyfansoddiadol, yn gofyn am ddiwygio rhannau helaeth o gymhwysedd presennol y Senedd. Nid yw Deddf Marchnad Fewnol y DU yn gwneud hyn. Mae gwneud fel arall - i ddiwygio cymhwysedd trwy ymhlygiad - yn groes i’r egwyddor o gyfreithlondeb. Dyma pam na fydd y Bil ac unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn ymgysylltu â Deddf Marchnad Fewnol y DU.”¹⁴²

138. Gwnaethom ofyn i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch unrhyw effeithiau ymarferol posibl i’r egwyddor o beidio â gwahaniaethu yn Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar gyfer gweithredu unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd fel y mae’n ymwneud â chaffael nwyddau sy’n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd. Ymatebodd:

“So, in respect of the UKIMA, I think where the Senedd legislates to confer regulation-making powers on Welsh Ministers, those

¹⁴² Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 17 Mawrth 2023

*regulation-making powers in the future will also be exercisable free from the requirements of the Act. So, whilst the detail of any future regulations has yet to be decided, we're clear that they will not engage the UK Internal Market Act.*¹⁴³

139. Byddai'r adran 10A newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru 2006 gan adran 3 o'r Bil, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sydd, ymhlith pethau eraill, yn pennu amcanion i'w dilyn gan awdurdodau perthnasol pan fyddant yn caffael gwasanaethau iechyd a nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd. Ymhlith eraill, dywedodd cyrff iechyd wrthym y gallai cyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd (a nwyddau a gwasanaethau cysylltiedig) o bosibl ddarparu cyfleoedd i gyfrannu at amcanion a mentrau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys, er enghraifft:

*"...the lower carbon footprint associated with services provided within Wales and increasing the amount of spend that NHS Wales puts in place with local service providers".*¹⁴⁴

140. Gwnaethom roi enghraifft ddamcaniaethol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o gynnwys amcan cefnogi nwyddau a wneir yng Nghymru yn y rheoliadau, a gofynnwyd iddi a allai hyn ddefnyddio'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020 h.y. cyfystyr â gwahaniaethu yn erbyn nwyddau a wneir mewn rhannau eraill o'r DU, a thrwy hynny gyfyngu ar fasnach rydd nwyddau ledled y DU.

141. Dywedodd Nick Lambert, uwch gyfreithiwr yn Llywodraeth Cymru:

*"Just to reiterate what the Minister said, which was that, with UKIMA, the view is that UKIMA wouldn't apply, but just to point out that, currently, the Procurement Bill and, we understand, the provider selection regime and the current public contract regulations all contain provisions around non-discrimination in them already. So, that framework exists in procurement legislation."*¹⁴⁵

¹⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraff 179], 30 Mawrth 2023

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 19], 9 Mawrth 2023

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 182], 30 Mawrth 2023

Ein barn ni

142. Er mai Bil fframwaith yw hwn, a bydd llawer o fanylion unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn cael eu nodi mewn unrhyw reoliadau a gyflwynir o dan yr adran 10A(1) newydd a chanllawiau statudol o dan yr adran 10A(4) newydd, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli mewn gwactod. Mae'n bwysig, felly, bod y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu gweld sut mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn cyd-fynd â'r cyd-destun polisi, deddfwriaethol a strategol ehangach. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach pan fydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno o fewn tirwedd sy'n esblygu fel caffael cyhoeddus, lle mae newidiadau deddfwriaethol sylweddol yn digwydd drwy Fil Caffael Llywodraeth y DU a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar yr un pryd ag y mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd yn mynd drwy'r Senedd.

143. Mae'n siomedig nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio o gwbl at y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, a sut y bydd yr egwyddorion a'r strwythurau a nodir yn y deddfwriaeth honno'n rhyngweithio ac yn helpu i lunio unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae'r un mor siomedig nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio o gwbl at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut y gallai unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd gyfrannu at y nodau a'r ffyrdd o weithio. Gallai cynnwys y wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol ar ôl ei chyflwyno fod wedi llywio ein gwaith craffu yn ddefnyddiol, a'i gwneud yn haws i randdeiliaid ymgysylltu â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i roi rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a ragwelir) yn adlewyrchu'r polisi ehangach a'r cyd-destun deddfwriaethol a strategol, yn gyson a'r cyd-destun hwnnw ac yn cyfrannu ato, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru); y rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG; ac ymrwymadau i fod yn Genedl Masnach Deg ac yn Genedl Dim Datgoedwigo, datblygu'r Economi Sylfaenol, dileu caethwasiaeth fodern o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, mesur allyriadau defnydd o ran carbon, a Sero Net a thargedau colli bioamrywiaeth.

144. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod nifer o asesiadau o effaith wedi'u cynnal, gan gynnwys hawliau plant, cydraddoldeb, effaith ar iechyd, cyfiawnder, y Gymraeg, a bioamrywiaeth. Rydym yn croesawu awgrym y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Gymdeithasol y bydd asesiad effaith

integredig yn cael ei baratoi fel rhan o'r ymgynghoriad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2023. Ond, mae'n resyn nad yw'r asesiadau o effaith sydd wedi'u cynnal hyd yma wedi'u cyhoeddi, ac felly nid ydynt ar gael i lywio ein gwaith craffu nac i gynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd.

145. O ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rydym yn cydnabod barn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai mater iddyn nhw fydd y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau perthnasol ar nodau a manylion caffael penodol yng nghyd-destun unrhyw gyfundrefn newydd. Fodd bynnag, pwrpas y Bil hwn yw sefydlu'r fframwaith cywir ar gyfer datblygu'r gyfundrefn newydd, gan gynnwys unrhyw amcanion y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y dylai awdurdodau perthnasol eu dilyn. Rydym yn cytuno â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd i roi arweiniad i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau gofal.¹⁴⁶

146. Rydym hefyd yn cytuno â'r Comisiwn fod yn rhaid i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau, yn ystod yr ymgynghoriad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2023 ac unrhyw waith ymgysylltu arall a allai ddigwydd, bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, neu gynrychiolwyr pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, ac yn defnyddio eu nodweddion gwarchoddedig i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.¹⁴⁷ Fel yr eglurodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae hyn yn ofyniad o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac yn ffordd bwysig o sicrhau bod Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, ac unrhyw gyfundrefn gaffael a gyflwynir oddi tano, yn gynhwysol ac yn hyrwyddo canlyniadau cydraddoldeb.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod y broses o ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol o dan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori ystyrllon â phobl â nodweddion gwarchoddedig (neu eu cynrychiolwyr).

147. Er bod cyrff iechyd ac awdurdodau lleol yn awdurdodau perthnasol at ddibenion Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, nodwn fod y Memorandwm

¹⁴⁶ HSP6 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

¹⁴⁷ HSP6 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (Saesneg yn unig)

Esboniadol yn cyfeirio at ddyletswyddau GIG Cymru o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ond nid yw'n sôn am rai awdurdodau lleol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i egluro bod awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

148. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn effeithio ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu mewn perthynas â'r materion a gwmpesir ym Mil Caffael y Gwasanaeth Iechyd; yn ein barn ni, mae'r materion hyn yn amlwg o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae gwasanaethau gofal iechyd wedi'u heithrio o gwmpas Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, ac felly, nid oes unrhyw ryngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 mewn perthynas â chaffael gwasanaethau o'r fath o dan unrhyw gyfundrefn newydd a gaiff ei chyflwyno gan Fil y Gwasanaeth Iechyd.

149. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n sicrhau eto na fydd Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithredu'r gyfundrefn gaffael newydd i'w chyflwyno o dan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd fel y mae'n ymwneud ag unrhyw nwyddau sy'n cael eu caffael mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd. Mae p'un a oes unrhyw effaith ymarferol o'r fath yn debygol o ddibynnu ar yr amcanion a gaiff eu pennu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o'r Bil). Gan nad ydym yn gwybod eto pa amcanion y gallai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eu pennu, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i ni asesu'n bendant a allai amcanion o'r fath ymgysylltu â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 gan eu bod yn ymwneud â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, bydd yn bwysig cynnal yr asesiad hwn cyn y gofynnir i'r Senedd bleidleisio ar y rheoliadau.

Argymhelliad 11. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau o dan adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) gerbron y Senedd, dylai'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y rheoliadau gynnwys asesiad a yw unrhyw un o'r amcanion yn y rheoliadau yn ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 fel y maent yn ymwneud â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd, ac os felly a oes risg y gallai effaith ymarferol yr amcanion gael ei thanseilio.

Rhestr o'r argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), ond dylai Aelodau o'r Senedd ystyried y materion a amgylchir yn ein hadroddiad drwy gydol eu gwaith craffu ar y Bil ac unrhyw reoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano.....20

Argymhelliad 2. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, ac yn ystod dadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch y modd y bydd y ddarpariaeth yn adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) yn sicrhau bod trefniadau digonol wedi'u hymgorffori mewn unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i sicrhau ei bod yn gweithredu'n agored, yn dryloyw ac mewn modd sy'n rhoi hyder i ddarparwyr a darpar ddarparwyr, yn ogystal â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth ddarparu'r wybodaeth a'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion a rhoi sylwadau ar y galwadau rydym wedi'u clywed y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer awdurdodau perthnasol i ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau caffael.....30

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno diwygiadau i'r diffiniad yn adran 10A(1)(b) newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) i egluro mai dim ond nwyddau a/neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig yn 'sylweddol' neu'n 'uniongyrchol' â'r gwasanaeth iechyd, all gael eu caffael o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd..... 36

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i asesu a fyddai diwygiadau tebyg i'r rhai a gynigir ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru hefyd yn fuddiol ar gyfer caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol.37

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau i gynnwys gofynion ar wyneb Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid cyn i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran newydd 10A(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w fewnosod gan adran 3 o'r Bil) gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.43

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod y gwaith o weithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a

gofynion y gyfundrefn honno (a ddisgwylir yng ngwanwyn 2024) yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac ar gael i'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys awdurdodau perthnasol, a darparwyr neu ddarpar ddarparwyr yn y sector preifat a thrydydd sector.....51

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd effaith ac effeithiolrwydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), ac unrhyw reoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano, yn cael eu monitro a'u hadolygu. Dylai hyn gynnwys eglurder ar yr amserlenni ar gyfer unrhyw gamau gweithredu, a chadarnhad y bydd canlyniadau unrhyw adolygiad yn cael eu cyhoeddi.....52

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i roi rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a ragwelir) yn adlewyrchu'r polisi ehangach a'r cyd-destun deddfwriaethol a strategol, yn gyson a'r cyd-destun hwnnw ac yn cyfrannu ato, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru); y rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG; ac ymrwymadau i fod yn Genedl Masnach Deg ac yn Genedl Dim Datgoedwigo, datblygu'r Economi Sylfaenol, dileu caethwasiaeth fodern o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, mesur allyriadau defnydd o ran carbon, a Sero Net a thargedau colli bioamrywiaeth..... 58

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod y broses o ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol o dan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori ystyrion â phobl â nodweddion gwarchoddedig (neu eu cynrychiolwyr)..... 59

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i egluro bod awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.....60

Argymhelliad 11. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau o dan adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) gerbron y Senedd, dylai'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y rheoliadau gynnwys asesiad a yw unrhyw un o'r amcanion yn y rheoliadau yn ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 fel y maent yn ymwneud â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd, ac os felly a oes risg y gallai effaith ymarferol yr amcanion gael ei thanseilio.....60